

# Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol Cymru Arolwg Busnes 2024 (Adroddiad cyffredinol)



Enw'r Awdur: DJS Research  
Cyfres adroddiadau: [2]  
Rhif yr adroddiad: [Terfynol]  
Dyddiad cyhoeddi: [Hydref 2024]  
Rhif y contract: [9422]  
Contractwr: DJS Research  
Rheolwr Contract: Julie Hollingsworth  
Awdur(on): **[Julie Hollingsworth, Clare Rapkins ac Emily Ward]**

# Cynnwys

Cynnwys .....	3
Rhestr o ffigurau .....	4
Crynodeb gweithredol .....	6
Cefndir yr ymchwil .....	6
Methodoleg .....	7
Dyluniad sampl .....	7
Adran 1: Cefndir yr ymchwil .....	12
Adran 2: Methodoleg.....	14
Adran 3: Dyluniad sampl.....	16
Adran 4: Canllaw i'r adroddiad hwn .....	18
Adran 5: Proffil yr holl fusnesau a arolygwyd.....	20
Adran 6: Canfyddiadau cyffredinol yr arolwg .....	24
Atodiad 1: copi o'r holiadur .....	63
Atodiad 2: copi o'r canllaw pwnc.....	92
Atodiad 3: astudiaethau achos.....	95

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Map o'r llwybrau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ymchwil.....	6
Ffigur 2: Map o'r llwybrau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ymchwil.....	12
Ffigur 3: Sector busnes.....	20
Ffigur 4: Math o fusnes .....	20
Ffigur 5: Maint busnes .....	21
Ffigur 6: Trosiant busnes .....	21
Ffigur 7: Nifer y safleoedd busnes .....	22
Ffigur 8: Ers pryd y mae'r busnes wedi gweithredu .....	22
Ffigur 9: A yw'r busnes ar agor drwy'r flwyddyn.....	23
Ffigur 10: Tymhorau/amserau'r flwyddyn lle mae'r galw ar ei uchaf .....	23
Ffigur 11: Agosrwydd at lwybrau.....	24
Ffigur 12: A yw busnesau yn cael unrhyw fuddion fesul llwybr .....	25
Ffigur 13: Y pum prif fantais a gafwyd o bob llwybr .....	26
Ffigur 14: Pwysigrwydd y llwybrau i lwyddiant busnesau.....	28
Ffigur 15: Llwybr a neilltuwyd.....	29
Ffigur 16: Manteision llwybrau a neilltuwyd i fusnesau .....	30
Ffigur 17: Newidiadau a ragwelir ym mhowsigrwydd llwybrau i fusnesau.....	31
Ffigur 18: Barn gyffredinol ar wahanol agweddau ar ansawdd y llwybr .....	33
Ffigur 19: Barn ar arwyddion yn ôl llwybr penodedig .....	34
Ffigur 20: Barn ar ansawdd yr wybodaeth a ddarperir yn ôl llwybr penodedig.....	36
Ffigur 21: Barn ar gynnal a chadw dodrefn llwybr yn ôl llwybr penodedig .....	37
Ffigur 22: Barn ar gynnal a chadw cyfleusterau/gwasanaethau yn ôl llwybr penodedig ....	38
Ffigur 23: Barn ar hygyrchedd yn ôl llwybr penodol.....	39
Ffigur 24: Barn ar ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn ôl llwybr penodedig .....	40
Ffigur 25: Ymwybyddiaeth o frandio llwybr .....	41
Ffigur 26: A yw busnesau wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am eu llwybr penodedig dros y flwyddyn ddiwethaf? .....	42
Ffigur 27: A yw busnesau'n cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol dros y flwyddyn ddiwethaf .....	43
Ffigur 28: A yw busnesau'n crybwyll enw eu llwybr penodedig yn unrhyw un o'u deunyddiau marchnata eu hunain.....	44
Ffigur 29: Amlygrwydd llwybrau a neilltuwyd mewn deunyddiau marchnata.....	45

Ffigur 30: Lefelau hyrwyddo yn ôl llwybr penodedig .....	46
Ffigur 31: Dulliau i helpu i annog mwy o bobl i ymweld â'r llwybrau.....	47
Ffigur 32: Lefelau cytundeb - Mwy o/gwell gwybodaeth am sut i gyrraedd y llwybrau mewn car.....	48
Ffigur 33: Lefelau cytundeb - Mwy o/gwell gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (e.e. amserlenni) .....	49
Ffigur 34: Lefelau cytundeb - Gwell darpariaeth trafndiaeth.....	50
Ffigur 35: Lefelau cytundeb - gwell cysylltiadau ffordd .....	51
Ffigur 36: Awgrymiadau i helpu cwsmeriaid i deithio o amgylch y llwybrau (ymatebion wedi'u codio) .....	52
Ffigur 37: Y tri phrif awgrym i helpu cwsmeriaid i deithio o amgylch y llwybr fesul llwybr (ymatebion wedi'u codio) .....	53
Ffigur 38: Gwybodaeth a ystyrir yn fwyaf defnyddiol i ddefnyddwyr llwybrau .....	54
Ffigur 39: Sgoriau ar y cymorth presennol sydd ar gael i fusnesau .....	55
Ffigur 40: Awgrymiadau ar gyfer helpu busnesau i gael mwy o fudd o'r llwybrau yn y dyfodol .....	56
Ffigur 41: Cydweithio â busnesau eraill .....	57
Ffigur 42: Dewisiadau cyfathrebu .....	59
Ffigur 43: Ymwybyddiaeth a defnydd o Becynnau Cymorth Busnes .....	60
Ffigur 44: Lefelau diddordeb mewn defnyddio'r porth busnes .....	61
Ffigur 45: Gwybodaeth wedi'i chynnwys ar y porth busnes i helpu i gefnogi rhedeg busnesau neu i gefnogi eu llwyddiant .....	62


# Crynodeb gweithredol

## Cefndir yr ymchwil

Yn 2013, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) astudiaeth ymchwil i werthuso'r manteision i fusnesau yn sgil agor Llwybr Arfordir Cymru. Cyn hyn, ymgwymerwyd ag astudiaeth ymchwil yn 2006 hefyd, yn canolbwyntio ar y tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2023, comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) DJS Research i gynnal astudiaeth wedi'i diweddarau. Prif nod yr ymchwil hwn oedd casglu gwybodaeth gynhwysfawr a mewnwleidiad gweithredol am y busnesau sy'n gweithredu'n agos at lwybrau pellter hir Cymru neu arnynt (sef Llwybr Arfordir Cymru, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr). Mae map o'r llwybrau<sup>1</sup> sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth i'w weld isod.

Ffigur 1: Map o'r llwybrau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ymchwil



<sup>1</sup> O'r pwynt hwn ymlaen, pan soniwn am 'llwybrau', rydym yn cyfeirio at yr holl llwybrau a gwmpesir yn yr arolwg sef Llwybr Arfordir Cymru, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

## Methodoleg

Defnyddiwyd y dulliau ymchwil canlynol i fodloni amcanion yr ymchwil.

### Arolwg ffôn meintiol:

Y brif fethodoleg ar gyfer yr arolwg busnes oedd cyfweiliadau CATI (cyfweiliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur), a darparwyd opsiwn ar gyfer cwblhau'r arolwg ar-lein. Datblygodd DJS Research holiadur (gyda mewnbwn gan CNC). Cymeradwywyd yr holiadur gan CNC ar <sup>19</sup> Chwefror 2024. Mae copi o'r arolwg i'w weld yn Atodiad 1.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolwg rhwng <sup>21</sup> Mawrth a<sup>4</sup> Gorffennaf 2024. Cafwyd cyfanswm o 1,013 o ymatebion (1,002 ymateb dros y ffôn ac 11 ymateb ar-lein).

### Cyfweiliadau manwl ansoddol

I ychwanegu gwerth ychwanegol at yr ymchwil, cynhaliwyd saith cyfweiliad manwl dros y ffôn gyda busnesau. Nod y cyfweiliadau hyn oedd cael dealltwriaeth fanylach o'r manteision penodol y mae busnesau wedi'u profi oherwydd eu hagosrwydd at Lwybr Arfordir Cymru neu Lwybrau Cenedlaethol. Mae copi o'r canllaw pwnc a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfweiliadau i'w weld yn Atodiad 2.

## Dyluniad sampl

Cytunwyd gyda CNC y byddai arolwg 2024 yn canolbwyntio'n bennaf ar fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ond hefyd y rheini yn Lloegr sy'n credu eu bod yn elwa o'u hagosrwydd at y llwybrau.

Roeddem hefyd yn cytuno â CNC y byddem yn siarad yn bennaf â busnesau o fewn coridor dwy filltir o'r llwybrau ond y gallai'r coridor hwn fod yn ehangach ar gyfer ardaloedd mwy gwledig neu pe bai busnesau'n nodi eu bod yn cael unrhyw fanteision busnes o'r cwsmeriaid y mae'r llwybrau'n eu denu.

Oherwydd bod argaeledd data busnes wedi bod yn fwy cyfyngedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac i sicrhau bod y ffrâm samplu mor gynhwysfawr â phosibl, bu DJS Research yn gweithio gyda CACI (ymgyngoriaeth Arbenigwr Gwybodaeth Ddaearyddol a Data arbenigol) i gynhyrchu rhestr o godau post sydd o fewn coridor 2 filltir o Lwybr Arfordir Cymru a hyd at 5 milltir o Lwybrau Cenedlaethol Clawdd Offa a Glyndŵr. Rhannwyd y rhestrau codau post hyn gyda'n darparwr cronfa ddata masnachol, Datascope, ac fe gynhyrchwyd ffrâm samplu o fusnesau sydd wedi'u lleoli o fewn y codau post penodedig hyn. Yn ogystal â dod o hyd i ddata trwy Datascope, cynhaliodd DJS Research eu hymchwil desg eu hunain i ddod o hyd i gysylltiadau ychwanegol. Crëwyd a hyrwyddwyd tudalen cofrestru arolwg hefyd gan CNC a phartneriaid, ar gyfryngau cymdeithasol ac fe'i dosbarthwyd trwy e-bost.

Ceir rhagor o fanylion am gefndir y prosiect, y fethodoleg a chynllun y sampl yn adrannau 1-3 yr adroddiad hwn.

# Canfyddiadau allweddol

## Proffil busnes

- Cymerodd cyfanswm o 1,013 o fusnesau ran yn yr arolwg. Recriwtiwyd busnesau ar sail eu hagosrwydd (mewn pellter cerdded neu daith fer mewn car) at y llwybrau a arolygwyd (Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa neu Lwybr Cenedlaethol Glyndŵr). Roedd busnesau hefyd o fewn y cwmpas os oeddent yn credu eu bod wedi elwa o fodolaeth o leiaf un o'r llwybrau a arolygwyd mewn rhyw ffordd. Lle'r oedd busnes yn agos at fwy nag un llwybr neu'n elwa ohono, fe'i neilltuwyd i un llwybr yn seiliedig ar yr un sy'n cynhyrchu'r gyfran uchaf o'i incwm.
- Cynrychiolir ystod eang o sectorau yn yr arolwg. Mae'r mwyafrif yn y sector preifat (85%). Mae 93% yn ficrofusenau/busnesau bach. Mae gan 46% o'r busnesau a arolygwyd drosiant o hyd at £200,000 y flwyddyn, tra bod 8% â throsiant o fwy nag £1 miliwn. Mae gan 78% un safle yng Nghymru.
- Mae 72% o'r busnesau a arolygwyd wedi hen sefydlu ac wedi bod yn gweithredu ers o leiaf 10 mlynedd, er bod cyfran fach o'r rhai a gyfwelwyd (6%) wedi agor o fewn y 2 flynedd diwethaf.
- Wrth edrych ar natur dymhorol busnesau, mae'r mwyafrif helaeth (85%) ar agor drwy'r flwyddyn. Mae galw mawr am 40% o'r busnesau yn ystod misoedd y Gwanwyn a'r Haf. Dywed 31% nad yw eu busnes yn dymhorol o gwbl.

## Pwysigrwydd y llwybrau

- Yn gyffredinol, mae tua 50% o'r 1,013 o fusnesau a holwyd yn credu eu bod yn elwa mewn rhyw ffordd ar o leiaf un o'r llwybrau. Mae'r buddion yn ymwneud yn bennaf â chynydd yn y nifer o gwsmeriaid, gyda rhai busnesau'n nodi bod y llwybrau'n cynhyrchu 'incwm mawr' iddynt, neu na fyddai eu busnes yn bodoli heb y llwybrau. Ar gyfartaledd dywed 43% o'r busnesau a arolygwyd fod y llwybrau'n helpu i gynyddu nifer y cwsmeriaid. O'r rhain, mae'r mwyafrif helaeth (99%) yn adrodd am gynnydd sylweddol mewn cwsmeriaid oherwydd y llwybrau. I 33% o fusnesau, mae'r llwybrau o fudd i'w trosiant ac i 11% o fusnesau, maent hefyd wedi helpu i sicrhau cyflogaeth.
- Er na allwn wneud cymariaethau uniongyrchol ag arolwg 2013 (cyfeiriwch at yr adran 'Meincnodi' ar dudalen 18 am ragor o fanylion), mae arwyddion i awgrymu bod rhai o'r manteision hyn wedi parhau i gynyddu yn ystod y degawd diwethaf. Mae hyn yn arbennig o wir am niferoedd cwsmeriaid. Mae rhai busnesau hefyd wedi cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd yn llwyddiannus i helpu i ehangu'r hyn a gynigir ganddynt i gwsmeriaid.
- Wrth edrych i'r dyfodol, mae 21% o fusnesau'n teimlo y bydd eu llwybr neilltuedig yn dod yn bwysicach i lwyddiant eu busnes. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith busnesau y neilltuwyd Llwybr Arfordir Cymru iddynt (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro) neu Lwybr Arfordir Sir Benfro yn unig.



- Er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, mae'r canfyddiadau'n amlygu rhai meysydd lle gellid gwneud gwelliannau i helpu i annog mwy o gwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys gwell hygyrchedd i'r rhai sydd â chadeiriau olwyn/bygis, gwell darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus a rhagor o wybodaeth am sut i deithio o amgylch y llwybrau (naill ai mewn car neu ar drafndiaeth gyhoeddus).

## Ymwybyddiaeth brand a hyrwyddo

- Mae 68% o'r holl fusnesau yn ymwybodol o frandio eu llwybr penodedig neu sut mae'n cael ei hyrwyddo. Mae hyn yn cynyddu i 71% o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro) ac 82% ar gyfer Llwybr Arfordir Sir Benfro yn unig.
- Efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r llwybrau. Er enghraifft, nid yw 70% o fusnesau'n meddwl bod y llwybrau'n cael eu hyrwyddo digon.
- Dim ond 33% o fusnesau sydd wedi gweld cyhoeddusrwydd neu hysbysebu yn ymwneud â'u llwybr penodedig yn y 12 mis diwethaf. Yn ogystal, dim ond 9% sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol yn ystod yr un cyfnod amser. Er y gall Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol fynd ati i hyrwyddo'r llwybrau, mae rôl y gall busnesau ei chwarae hefyd. Er bod 48% o fusnesau yn hyrwyddo eu llwybr penodedig yn eu deunyddiau marchnata mewn rhyw ffordd, dim ond 19% sy'n sôn yn benodol amdano wrth ei enw. At hynny, dim ond 24% sy'n ystyried ei fod yn elfen bwysig o'u marchnata.
- Mae llawer o'r cynrychiolwyr busnes a gymerodd ran yn yr ymchwil hefyd yn drigolion lleol sy'n ymddangos yn eithaf angerddol am y llwybrau a arolygwyd, Cymru'n gyffredinol a'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig i ymwelwyr a thrigolion. Mae'n ymddangos bod awydd i rai busnesau ddod yn llysgenhadon llwybrau. Felly, efallai y bydd CNC neu rhanddeiliaid am hwyluso rhaglen llysgenhadon drwy roi'r wybodaeth, yr adnoddau a'r offer i gynrychiolwyr busnesau dethol i hyrwyddo'r llwybrau, er budd eu busnesau eu hunain yn ogystal ag eraill.

## Cymorth busnes

- Gofynnwyd i bob busnes roi adborth ar y cymorth ariannol a chymorth arall (e.e. cymorth gyda marchnata neu hyfforddiant) sydd ar gael iddynt. Dim ond tuag un o bob pump sy'n graddio pob agwedd yn 'dda' (ac eithrio'r rhai a ddywedodd 'Ddim yn gwybod').
- Er bod ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael yn gyfyngedig, mae'r canlyniadau'n dangos bod angen yn bodoli. Byddai gan 55% o fusnesau ddiddordeb pe bai porth busnes pwrpasol Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno. Pan ofynnir iddynt ddarparu manylion am yr hyn y credant y dylai'r porth ei gynnwys, mae'r pynciau a grybwyllir amlaf yn ymwneud â newyddion, digwyddiadau a chynnwys y gellir ei rannu â'u cwsmeriaid.

# Argymhellion

Mae sawl argymhelliad wedi'u nodi y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru eu hystyried:

## Pwysigrwydd y llwybrau

Mae canlyniadau'r arolwg ac astudiaethau achos yn nodi na fyddai rhai busnesau'n goroesi heb fodolaeth y llwybrau, gan eu bod yn dibynnu'n helaeth ar y cwsmeriaid y mae'r llwybrau'n eu denu. Er mwyn helpu i gynyddu nifer y cwsmeriaid yn y dyfodol, mae'n ymddangos y gellid gwneud rhai gwelliannau i gynnal a chadw a hygyrchedd y llwybrau (yn enwedig ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn neu fygis), arwyddion, trafndiaeth gyhoeddus ac ansawdd y wybodaeth a ddarperir (yn enwedig yn ymwneud â theithio o amgylch y llwybrau).

## Marchnata/hyrwyddo'r llwybrau

- Dim ond cyfran gymharol fach o fusnesau (33%) sydd wedi gweld cyhoeddusrwydd neu hysbysebu yn ymwneud â'u llwybr penodedig. Yn ogystal, nid yw 70% yn meddwl bod eu llwybr penodedig yn cael ei hyrwyddo digon. Mae yna hefyd arwyddion i awgrymu bod ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd a hysbysebu wedi gostwng ers 2013 (er yr oedd arolwg 2013 ond yn cynnwys busnesau a neilltuwyd i Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Arfordir Sir Benfro). Mae hyn yn awgrymu y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol ddymuno cynyddu maint yr hysbysebu, ond hefyd archwilio dull fwy targedig o gyfathrebu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ei fod yn fwy perthnasol i fusnesau a'u cwsmeriaid. Efallai y byddant hefyd am adolygu dewisiadau cyfathrebu busnesau i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am y llwybrau yn eu fformat dewisol, yn enwedig gan y byddai'n well gan 72% o fusnesau dderbyn cyfathrebiadau gan CNC a'i rhanddeiliaid drwy e-bost.
- Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru a'i rhanddeiliaid allweddol weithio gyda busnesau (os nad ydynt eisoes) i annog mwy o fusnesau i gyfeirio at eu llwybr penodedig yn eu deunyddiau marchnata. Er enghraifft, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol rannu enghreifftiau o astudiaethau achos neu 'Straeon Newyddion Da' gyda busnesau i helpu i arddangos yr effeithiau cadarnhaol.
- Mae'r astudiaethau achos (gweler Atodiad 3) hefyd yn amlygu'r angen posibl i drefnu mwy o ddigwyddiadau/hyrwyddiadau i annog ymwelwyr i'r llwybrau ar adegau tawel o'r flwyddyn. Gallai hyn helpu i gynyddu gwerthiannau/cwsmeriaid ar yr adegau hyn o'r flwyddyn, o ystyried bod rhai busnesau wedi nodi eu bod yn cael trafferth cynnal incwm cyson drwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r astudiaethau achos (gweler Atodiad 3) hefyd yn amlygu'r angen posibl i drefnu mwy o ddigwyddiadau/hyrwyddiadau i annog ymwelwyr i'r llwybrau ar adegau tawel o'r flwyddyn. Gallai hyn helpu i gynyddu gwerthiannau/cwsmeriaid ar yr adegau hyn o'r flwyddyn, o ystyried bod rhai busnesau wedi nodi eu bod yn cael trafferth cynnal incwm cyson drwy gydol y flwyddyn.

## Cymorth busnes

- Amlygodd canfyddiadau'r arolwg ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r cymorth ariannol a chymorth arall sydd ar gael i fusnesau. Gallai fod yn fuddiol, felly, i Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid gyfathrebu manylion y cymorth sydd ar gael yn bresennol a darparu canllawiau cliriach ar sut i wneud cais (os oes angen).
- Yn olaf, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos diddordeb posibl mewn cyflwyno porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol. Os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu cyflwyno hyn yn y dyfodol, byddai'n fuddiol ymgynghori â busnesau yn ystod y broses ddylunio i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion.

# Adran 1: Cefndir yr ymchwil

Yn 2013, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) astudiaeth ymchwil i werthuso'r manteision i fusnesau yn sgil agor Llwybr Arfordir Cymru. Cyn hyn, ymgwymerwyd ag astudiaeth ymchwil yn 2006 hefyd, yn canolbwyntio ar y tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2023, comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) DJS Research i gynnal astudiaeth wedi'i diweddarau. Prif nod yr ymchwil hwn oedd casglu gwybodaeth gynhwysfawr a mewnwleidiad gweithredol am y busnesau sy'n gweithredu'n agos at lwybrau pellter hir Cymru neu arnynt<sup>2</sup>. Mae map o'r llwybrau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth i'w weld isod.

Ffigur 2: Map o'r llwybrau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ymchwil



<sup>2</sup> O'r pwynt hwn ymlaen, pan soniwn am 'llwybrau', rydym yn cyfeirio at yr holl llwybrau a gwmpesir yn yr arolwg sef Llwybr Arfordir Cymru, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

## **Yn fwy penodol, amcanion allweddol yr astudiaeth ymchwil hon oedd:**

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar neu gerllaw Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau yn agos at y llwybrau.
- Aseu'r manteision a ddaw yn sgil y llwybrau i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhrychir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio rhwng busnesau sydd wedi'u lleoli ar hyd y llwybrau.
- Casglu barn ar faterion megis argaeledd trafndiaeth gyhoeddus, gweledd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.
- Archwilio diddordeb a chefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol Llwybr Arfordir Cymru/Llwybrau Cenedlaethol.
- Cymharu canlyniadau ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo'n bosibl neu'n berthnasol.

## Adran 2: Methodoleg

Defnyddiwyd y dulliau ymchwil canlynol i fodloni'r amcanion ymchwil a restrir uchod.

### Arolwg ffôn meintiol:

Y brif fethodoleg ar gyfer yr arolwg busnes oedd cyfweiliadau CATI (cyfweiliadau ffôn â chymorth-cyfrifiadur), a darparwyd opsiwn i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Yn gyntaf, datblygodd DJS Research holiadur (gyda mewnbwn gan CNC) a oedd yn casglu gwybodaeth am:

- Proffil busnes (megis sector/gweithgareddau busnes, maint busnes ac ati)
- Pwysigrwydd pob llwybr i fusnesau
- Ymwybyddiaeth o weithgarwch marchnata sy'n gysylltiedig â'r llwybrau
- Adborth ar wahanol agweddau ar y llwybrau (e.e. darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus, arwyddion ac ati)
- Ymwybyddiaeth a defnydd o becynnau cymorth busnes
- Manteision canfyddedig y llwybrau
- Cydweithio rhwng busnesau
- Safbwyntiau ar borth busnes penodol Llwybr Arfordir Cymru/Llwybrau Cenedlaethol
- Cyfleoedd pellach am gefnogaeth

Cymeradwywyd yr holiadur gan CNC ar<sup>19</sup> Chwefror 2024. Mae copi o'r arolwg i'w weld yn Atodiad 1.

Cyn i'r prif gyfweiliadau ffôn ddechrau, cynhaliodd DJS Research chwe chyfweiliad prawf gwybyddol rhwng 26 Chwefror ac<sup>11</sup> Mawrth 2024. Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gan uwch aelod o'r tîm ymchwil. Recriwtiwyd cyfranogwyr gan ddefnyddio cysylltiadau a gafwyd trwy ymchwil desg.

Wrth gymryd rhan yn y cyfweiliadau gwybyddol, gwahoddwyd y cyfranogwyr i roi sylwadau ar y canlynol:

- Hyd yr arolwg
- Llif y cwestiynau
- Defnydd iaith
- Rhwyddineb deall
- A oeddent yn teimlo bod unrhyw fylchau yn yr holiadur

Daeth y busnesau a gymerodd ran yn y broses hon o'r sectorau manwerthu, llety a lletygarwch ac roeddent wedi'u lleoli naill ai ar Lwybr Arfordir Cymru, Llwybr Arfordir Sir Benfro, Llwybr Clawdd Offa, neu Lwybr Glyndŵr.

Ar ôl cwblhau'r rhan gwybyddol, adolygodd DJS Research yr adborth ac argymhell rhai mân newidiadau i'r holiadur (y cytunwyd arnynt gan Cyfoeth Naturiol Cymru). Ar yr adeg honno, creodd DJS Research fersiwn Gymraeg o'r arolwg hefyd. Crëwyd arolwg ar-lein

hefyd fel dull arall o gwblhau ar gyfer busnesau. Hyrwyddwyd a dosbarthwyd y ddolen ar-lein gan Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolwg rhwng <sup>21</sup> Mawrth a <sup>4</sup> Gorffennaf 2024. Cafwyd cyfanswm o 1,013 o ymatebion (1,002 dros y ffôn ac 11 ymateb ar-lein).

Dadansoddwyd y set ddata derfynol gan ddefnyddio ein pecyn meddalwedd dadansoddol, Walr. Defnyddiodd ein Tîm Data y feddalwedd i greu set gynhwysfawr o dablau data ar ffurf Microsoft Excel. Roedd y tablau data yn cynnwys canlyniadau ar gyfer pob cwestiwn ar lefel gyfan ac ystod gynhwysfawr o drawstoriadau (megis maint busnes, sector, llwybrau a neilltuwyd a newidynnau allweddol eraill). Roedd y tablau hefyd yn cynnwys profion arwyddocâd a thabl cynnwys.

## Cyfweliadau manwl ansoddol:

I ychwanegu gwerth ychwanegol at yr ymchwil, cynhaliodd DJS Research hefyd saith cyfweliad manwl gyda busnesau (a roddodd eu caniatâd yn yr arolwg i ailgysylltu â nhw). Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau hyn dros y ffôn.

Nod y cyfweliadau hyn oedd ategu canlyniadau'r arolwg meintiol a chael dealltwriaeth fanylach o'r manteision penodol y mae busnesau wedi'u profi oherwydd eu hagosrwydd at Lwybr Arfordir Cymru neu Lwybrau Cenedlaethol, a'r gwelliannau neu'r cymorth ychwanegol sydd eu hangen yn eu barn nhw i'w helpu i wneud y mwyaf o'r buddion ymhellach.

Mae crynodebau o'r saith cyfweliad wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn fel astudiaethau achos. Lle bo'n berthnasol, mae dyfyniadau o'r cyfweliadau hefyd wedi'u defnyddio ym mhrif gorff yr adroddiad i helpu i gefnogi ac egluro pwyntiau allweddol o'r arolwg. Mae copi o'r canllaw pwnc a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfweliadau i'w weld yn Atodiad 2.

## Adran 3: Dyluniad sampl

### Roedd adeiladu'r ffrâm samplu yn rhan hollbwysig o'r ymchwil hwn.

Roedd manyleb y tendr a'r cyfarfodydd cychwyn dilynol yn amlygu'r angen i geisio ailadrodd y dull a ddefnyddiwyd yn flaenorol, lle bo modd. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod y dulliau a ddefnyddiwyd ym mhob un o'r ddwy astudiaeth ymchwil flaenorol ychydig yn wahanol a bod tirwedd busnesau'r ardal wedi newid yn y 10+ mlynedd ers cynnal yr astudiaeth ymchwil ddiwethaf. Roedd amcanion penodol yr arolwg 2024 hwn hefyd yn wahanol i arolygon blaenorol.

Ar sail y ddealltwriaeth hon, roedd arolwg 2024 yn ymwneud yn bennaf â busnesau yng Nghymru ond hefyd y rheini yn Lloegr sy'n credu eu bod yn elwa o'u hagosrwydd at y llwybrau. Fe wnaethom gytuno hefyd â CNC y byddem yn siarad yn bennaf â busnesau o fewn coridor dwy filltir o Lwybr Arfordir Cymru ond y gallai'r coridor hwn fod yn lletach ar gyfer ardaloedd mwy gwledig (megis Llwybr Clawdd Offa a Llwybrau Cenedlaethol Glyndŵr). Fodd bynnag, cytunwyd hefyd na fyddem yn eithrio unrhyw fusnesau sydd wedi'u lleoli ymhellach na 2 filltir i ffwrdd o lwybr pe baent yn ystyried eu hunain yn agos, neu pe byddent yn nodi eu bod yn cael unrhyw fanteision busnes gan y cwsmeriaid y mae'r llwybrau'n eu denu.

### Roedd arolwg 2024 yn canolbwyntio ar y sectorau canlynol:

- Llety
- Lletygarwch/arlwyo
- Manwerthu
- Atyniadau ymwelwyr/lleoedd i ymweld â nhw/cyfleusterau hamdden
- Cludiant
- Gwasanaethau neu weithgareddau twristiaeth/hamdden
- Gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr neu gyflenwyr cynhyrchion sy'n gysylltiedig â'r llwybrau
- Adeiladu/atgyweirio neu gynnal a chadw

Gan fod argaeledd data busnes wedi bod yn fwy cyfyngedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac i sicrhau bod y ffrâm samplu mor gynhwysfawr â phosibl, cymerodd DJS Research y camau canlynol i helpu i ddatblygu ffrâm samplu ar gyfer y prosiect hwn:

- **Cam 1:** Comisiynu CACI (ymgyngoriaeth Arbenigwr Gwybodaeth Ddaearyddol a Data arbenigol) i ddarparu rhestr o godau post sydd o fewn coridor 2 filltir o Lwybr Arfordir Cymru a hyd at 5 milltir o Lwybrau Cenedlaethol Clawdd Offa a Glyndŵr.
- **Cam 2:** Rhannwyd y rhestrau codau post ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Clawdd Offa a Llwybr Glyndŵr â'n darparwr cronfa ddata masnachol, Datascope. Roedd hyn yn eu galluogi i roi manylion cyswllt 4,500 o fusnesau mewn sectorau perthnasol o fewn y codau post penodedig i ni.

Yn ogystal â dod o hyd i ddata trwy Datascope, cynhaliodd DJS Research ymchwil desg hefyd i ddod o hyd i gysylltiadau ychwanegol. Drwy'r broses hon, yn ystod y cyfnod peilot, nodwyd 343 o fusnesau posibl eraill gennym. Cyflawnwyd hyn trwy chwiliadau



cyffredinol ar y we, yn ogystal â defnyddio'r gwefannau swyddogol ar gyfer pob llwybr sy'n manylu ar ddewisiadau llety i gerddwyr.

Anfonwyd y rhestr hon o gysylltiadau a gafwyd trwy ymchwil desg at Datascope, a ddad-ddyblygodd ei ffeil ddata yn unol â hynny, i sicrhau bod yr holl gofnodion a ddarparwyd yn unigryw.

Yn ogystal, crëwyd a hyrwyddwyd tudalen cofrestru arolwg gan CNC a phartneriaid, ar gyfryngau cymdeithasol ac fe'i dosbarthwyd trwy e-bost. Caniataodd hyn i fusnesau fynegi eu diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwil ac arweiniodd at gyfanswm o 95 o fusnesau yn cofrestru, a oedd wedyn wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg.

# Adran 4: Canllaw i'r adroddiad hwn

## Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Perfformir talgrynnu ar gam olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb mwyaf. Felly, lle cyflwynir canlyniadau fel % positif, % niwtral neu % negyddol, efallai y bydd achosion lle nad yw'r canlyniadau'n dod i gyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau byth amrywio gan +/-1 pwynt canran.

## Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad atebodd pawb bob cwestiwn, gallai'r sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm y busnesau a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol (1,013).

## Diffiniad o lwybrau 'a neilltuwyd'

Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu pa mor agos (S02a, S02b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (S03, C01 a C02), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar y llwybr a neilltuwyd iddynt. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at fwy nag un llwybr neu'n elwa ar fwy nag un, cawsant eu neilltuo i'r un a oedd naill ai a) yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o'u gwerthiannau/trosiant neu b) eu bod yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

## Diffiniad o 'llwybrau'

Drwy gydol yr adroddiad, mae cyfeiriadau at 'llwybrau'. Dylid nodi, wrth gyfeirio at llwybr, ein bod yn sôn yn benodol am Lwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Lwybr Arfordir Sir Benfro). Pan fyddwn yn cyfeirio at 'llwybrau', rydym yn cyfeirio at Lwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa neu Lwybr Cenedlaethol Glyndŵr. Er, gyda'i gilydd cyfeirir atynt fel 'llwybrau'.

## Cymariaethau rhwng y llwybrau

Drwy gydol yr adroddiad, mae sawl siart sy'n cymharu canfyddiadau ar gyfer y cyfanswm cyffredinol - 'Pob llwybr a arolygwyd' - a rhwng llwybrau unigol (o bob math). Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cymariaethau hyn am y rhesymau a ganlyn:

- 1) Cafodd dwy ran o dair o'r busnesau a arolygwyd (66%) eu neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Lwybr Arfordir Sir Benfro), felly bydd cyfanswm y canlyniadau ('pob llwybrd a arolygwyd') yn gwyro'n drymach tuag at y ffordd benodol hon.
- 2) Mae Lwybr Arfordir Sir Benfro yn cael ei ddsbarthu fel Lwybr Cenedlaethol ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Am y rheswm hwn, mae busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r llwybr unigol (h.y, Lwybr Arfordir Sir Benfro) ac yng nghanlyniadau Lwybr Arfordir Cymru.

Drwy gydol yr adroddiad, wrth gyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru, rydym yn cyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Lwybr Arfordir Sir Benfro.

## Meincnodi

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi cymharu canfyddiadau (lle bo'n berthnasol) ag astudiaethau blaenorol o 2013. Fodd bynnag, dylid trin unrhyw gymariaethau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel rhai dangosol oherwydd y rhesymau a amlinellir isod.

Asesodd astudiaeth 2013 effaith economaidd Llwybr Arfordir Cymru, gan ganolbwyntio ar fetrigau megis creu swyddi a gwerthuso rôl y ffordd wrth hyrwyddo twristiaeth arfordirol Cymru. Defnyddiodd arolwg 2024 ddull ehangach, gan ymgysylltu ag ystod ehangach o fusnesau, gan gynnwys y rhai ym meysydd lletygarwch, manwerthu, atyniadau ymwelwyr, trafniadaeth, gweithgynhyrchu ac adeiladu, i archwilio nid yn unig effeithiau economaidd ond hefyd pynciau megis ymwybyddiaeth busnesau o'r llwybrau, buddion canfyddedig, adborth ar wasanaethau, a chyfleoedd i gydweithio. O ystyried y cwmpas ehangach hwn, mae ein canfyddiadau'n adlewyrchu amrywiaeth ehangach o brofiadau busnes ar hyd y llwybrau, sy'n cyfyngu ar gymariaethau uniongyrchol ag astudiaethau cynharach.


Yn ogystal, ers i'r arolygon blaenorol gael eu cynnal dros ddegawd yn ôl, mae'r dirwedd fusnes ac ymddygiad cwsmeriaid o fewn y sector twristiaeth yn debygol wedi esblygu. Er ein bod wedi gwneud cymariaethau lle bo'n bosibl, mae'n werth nodi bod newidiadau i ddynameg y farchnad, ymddygiad defnyddwyr ac amodau economaidd dros amser yn golygu efallai nad yw'r canlyniadau hyn yn y gorffennol yn adlewyrchu cyflwr presennol y diwydiant yn llawn.

# Adran 5: Proffil yr holl fusnesau a arolygwyd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn manylu ar broffil y 1,013 o fusnesau a gymerodd ran yn yr ymchwil.


Mae Ffigurau 3-5 isod yn dangos bod ystod eang o sectorau yn cael eu cynrychioli yn yr arolwg. Mae 49% naill ai yn y sector llety neu fanwerthu. Mae'r mwyafrif yn y sector preifat (85%) gyda llai na 50 o weithwyr (93%).

Ffigur 3: Sector busnes




Sylfaen: Pob busnes (1013) Q05B. Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes/sefydliad orau?

Ffigur 4: Math o fusnes



Sylfaen: Pob busnes (1013) C01. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch busnes neu sefydliad orau?


Ffigur 5: Maint busnes



*Sylfaen: Pob busnes (1013) Q07A/B. Gan gynnwys chi eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes/sefydliad?*


O ran trosiant, mae gan 46% o'r busnesau a arolygwyd drosiant o hyd at £200,000 y flwyddyn, tra bod dim ond 8% â throsiant o dros £1 miliwn. Mae gan 78% o fusnesau un safle yng Nghymru.

Ffigur 6: Trosiant busnes



*Sylfaen: Pob busnes (1013) C02. Beth oedd trosiant eich busnes (neu werth gwerthiant) yn fras yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?*


Ffigur 7: Nifer y safleoedd busnes



*Sylfaen: Pob busnes (1013) Q06. Ydy eich busnes/sefydliad yn gweithredu o un lleoliad neu safle, neu leoliadau neu safleoedd lluosog?*

Mae ffigur 8 yn dangos bod 72% o'r busnesau a arolygwyd wedi hen sefydlu ac wedi bod yn gweithredu ers o leiaf 10 mlynedd, er bod cyfran fach o'r rhai a gyfwelwyd (6%) wedi agor o fewn y 2 flynedd diwethaf.


Ffigur 8: Ers pryd y mae'r busnes wedi gweithredu



*Sylfaen: Pob busnes (1013) C04. Tua faint o amser ydy'ch busnes/sefydliad wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?*


Wrth edrych ar natur dymhorol busnesau, mae'r mwyafrif helaeth (85%) ar agor drwy'r flwyddyn. Mae Ffigur 10 yn dangos bod 40% o fusnesau yn profi cynnydd yn y galw yn ystod misoedd y Gwanwyn a'r Haf. Er bod 31% yn nodi nad yw eu busnes yn dymhorol o gwbl.

Ffigur 9: A yw'r busnes ar agor drwy'r flwyddyn



Sylfaen: Pob busnes (1013) C09a. Ac a yw eich busnes/sefydliad ar agor drwy'r flwyddyn?

Ffigur 10: Tymhorau/amserau'r flwyddyn lle mae'r galw ar ei uchaf



Sylfaen: Pob busnes (1013) C09b. A oes tymor neu amser penodol o'r flwyddyn y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

## Adran 6: Canfyddiadau cyffredinol yr arolwg


Mae'r canlyniadau a gyflwynir drwy gydol yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y sampl gyffredinol o 1,013 o fusnesau a gymerodd ran yn yr ymchwil. Darperir adroddiadau unigol ar gyfer pob llwybr a rhanbarth ymwelwyr ar wahân.

Sylwch, mae'r holl ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn cynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro. Gweler yr esboniad llawn yn Adran 4: Arweiniad i'r adroddiad hwn am ragor o wybodaeth.

### Agosrwydd at y llwybrau

Mae 68% o'r busnesau a arolygwyd yn nodi eu bod wedi'u lleoli ar neu'n agos at Lwybr Arfordir Cymru ac o fewn hyn, mae 15% wedi'u lleoli ar neu'n agos at Lwybr Arfordir Sir Benfro. Mae 29% yn ystyried eu bod wedi'u lleoli ar neu'n agos at Lwybr Clawdd Offa, tra bod 9% dweud eu bod yn agos at Lwybr Glyndŵr.

Ffigur 11: Agosrwydd at lwybrau



*Sylfaen: Pob busnes (1013) S02a. Pa rai, os o gwbl, o'r llwybrau canlynol y mae eich busnes neu sefydliad wedi'i leoli arnynt neu'n agos atynt? Cwestiwn amlddewis felly bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%.*




## Manteision yn deillio o'r llwybrau

Gofynnwyd i bob busnes a ydynt yn gweithgynhyrchu, gwerthu neu gyflenwi unrhyw gynnyrch neu wasanaethau i bobl sy'n defnyddio unrhyw un o'r llwybrau cerdded neu'n cael rhyw fath o fudd ohonynt.

Fel y dengys Ffigur 12, mae 52% o'r holl fusnesau a arolygwyd yn honni eu bod wedi cael o leiaf rhywfaint o fudd o'r llwybrau.

Mae 39% o'r holl fusnesau a arolygwyd yn cael o leiaf rhywfaint o fudd o Lwybr Arfordir Cymru, tra bod 13% yn cael budd o Lwybr Clawdd Offa a 5% o Lwybr Glyndŵr.


Ffigur 12: A yw busnesau yn cael unrhyw fuddion fesul llwybr



*Sylfaen: Pob busnes (1013) S03. A yw eich busnes neu sefydliad yn cynhyrchu, gwerthu neu gyflenwi unrhyw gynnyrch neu wasanaethau i bobl sy'n defnyddio neu'n ymweld ag unrhyw un o'r llwybrau cerdded, neu'n cael unrhyw fudd o fodolaeth y naill lwybr neu'r llall? Cwestiwn amlddewis felly bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%.*

Gofynnwyd i bob busnes sy'n elwa o bob llwybr mewn rhyw ffordd ddisgrifio'r budd hwn yn eu geiriau eu hunain. Mae pob un o'u hymatebion wedi'u codio yn themâu ac wedi'u cyflwyno yn Ffigur 13 isod, gyda'r rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud â chynnydd mewn gwerthiannau/nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i'r llwybrau a arolygwyd.

Ffigur 13: Y pum prif fantais a gafwyd o bob llwybr



Sylfaen: Pob busnes sy'n ystyried eu bod yn elwa o'r llwybrau (46-531) Q01. Sut mae eich busnes/sefydliad yn elwa o < RHOWCH ENW'R LLWYBR >?

Isod ceir rhai enghreifftiau o sylwadau nodweddiadol gan fusnesau i helpu i ddangos y budd o ran gwerthiannau a nifer yr ymwelwyr oherwydd eu hagosrwydd at y llwybrau a arolygwyd:

**Gwell gwerthiannau (emapiau, canllawiau, llyfrau, ac ati):**

*“Rydym yn gwerthu mapiau ac arweinlyfrau, cynnyrch parciau cenedlaethol, cardiau post, posteri a chylchgrawn y parc cenedlaethol.”*

*“Cyflenwi deunydd argraffu i bobl sy’n hyrwyddo’r llwybrau.”*

**Gwell niferoedd ymwelwyr:**

*“Rydym ni reit ar lwybr Ynys Môn ac mae yna nifer uchel o ymwelwyr. Mae yna bobl o gwmpas bron bob dydd ac yn y rhan fwyaf o dywydd hyd yn oed yn y gaeaf. Mae’n dymhorol ond mae’r tymor busnes yn mynd ychydig yn hirach.”*

*“Mae’n denu pobol i’r ardal.”*

Amlygodd busnesau eraill na fyddai eu busnes yn goroesi heb fodolaeth y llwybrau, gan eu bod yn dibynnu’n helaeth ar dwristiaeth (yn enwedig yn ystod misoedd y gwanwyn a’r haf). Roedd sylwadau nodweddiadol gan fusnesau yn cynnwys:

*“Rydym yn cael y twristiaeth yn yr haf a hefyd yn derbyn pobl o wyliau cerdded yn y gwanwyn a’r hydref.”*

*“Mae mwy o ddefnydd o lwybr yr arfordir (yn arwain) at fwy o fanwerthu a thwristiaeth. (Maen nhw) i gyd yn arwain at effaith fuddiol ar ein busnes.”*

*“Mae llawer o bobl yn ein dewis ni oherwydd ein hagosrwydd. Cerddwyr a phobl sy’n gwerthfawrogi golygfeydd.”*

*“Y cerddwyr hynny yw ein prif hincwm; rydym yn arbenigo mewn teithiau cerdded Cymraeg.”*

*“Rydym yn cael llawer o gerddwyr yn dod i mewn i’r swyddfa docynnau sydd eisiau mynd ar deithiau cwch. ...Yn aml iawn pan fo’r tywydd yn wael, ac ni allwn redeg teithiau cwch, rydym yn argymhell y cerddwyr i fynd ar y llwybr arfordirol yn y gobaith o weld bywyd gwylt y byddent yn ei weld ar y daith.”*

*“Rwy’n peintio tirluniau o’r ardal ac ni fyddai gennyf fusnes fel arall. Mae’n denu pobl i Sir Benfro a phrin y gallai fy oriel fodoli hebdo.”*

*“Mae pobl yn dod i mewn i brynu esgidiau cerdded, mapiau, cwmpawdau, offer, a dillad yn ogystal ag esgidiau.”*

Mae enghreifftiau o astudiaethau achos i helpu i ddangos sut mae’r llwybrau wedi bod o fudd i fusnesau yn Atodiad 3.


## Pwysigrwydd y llwybrau i fusnesau

Gofynnwyd i bob busnes sy'n agos at lwybr penodol neu'n elwa ohono i raddio pwysigrwydd pob un i lwyddiant eu busnes.

Mae Ffigur 14 yn dangos bod 51% o'r holl fusnesau sy'n agos at Lwybr Arfordir Cymru neu sy'n elwa ohono yn ystyried bod y llwybr yn bwysig i lwyddiant eu busnes. Mae hyn yn cynyddu i 67% wrth edrych ar Lwybr Arfordir Sir Benfro ar wahân.

Yn y cyfamser, mae 33% o fusnesau sy'n agos at neu'n elwa o Lwybr Clawdd Offa a 32% ar gyfer Lwybr Glyndŵr yn ystyried bod y llwybrau hyn yn bwysig i lwyddiant eu busnes.

Ffigur 14: Pwysigrwydd y llwybrau i lwyddiant busnesau



*Sylfaen: Pob busnes (102-571) Q02. Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd pob un o'r llwybrau canlynol i lwyddiant eich busnes/sefydliad? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos ar y siart er taclusrwydd.*


## Llwybr a neilltuwyd

Ar ôl ateb y cwestiynau uchod, neilltuwyd llwybr i'r busnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiynau arolwg a oedd yn weddill yn seiliedig ar y llwybr penodedig hwnnw. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at fwy nag un llwybr neu'n elwa ar fwy nag un, cawsant eu neilltuo i'r un a oedd naill ai a) yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o'u gwerthiannau/trosiant neu b) eu bod yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes. Ceir manylion llawn am sut y neilltuwyd busnesau i lwybr penodol yn Adran 4.

**Sylwch: mae pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro hefyd wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau Llwybr Arfordir Cymru.**

Fel y dengys Ffigur 15 isod, mae cyfran gymharol uchel o fusnesau (66%) wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru. Felly, dylid cofio y bydd cyfanswm canlyniadau'r holl lwybrau a arolygwyd yn yr adroddiad hwn yn gogwyddo'n drymach tuag at y llwybr penodol hwn.

Ffigur 15: Llwybr a neilltuwyd



Sylfaen: Pob busnes (1013).

## Effaith y llwybr a neilltuwyd ar fusnesau

Er mwyn deall ymhellach y manteision y mae pob llwybr yn eu darparu i fusnesau, cyflwynwyd rhestr o wyth mantais bosibl i bob busnes a gofynnwyd iddynt ddatgan a oeddent yn meddwl bod presenoldeb eu llwybr penodedig wedi arwain at neu wedi cyfrannu at unrhyw rai o'r manteision a restrir.


Yn gyffredinol, mae 48% o'r holl fusnesau'n teimlo bod eu llwybr penodedig wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth o leiaf, gyda'r manteision a grybwyllir amlaf yn ymwneud â mwy o gwsmeriaid (43%) neu werthiannau/trosiant (33%). O'r busnesau hynny sy'n teimlo bod eu llwybr penodedig wedi cael effaith ar gwsmeriaid neu werthiannau/trosiant, mae'r mwyafrif helaeth (o leiaf 98%) yn teimlo ei fod wedi cynyddu mewn rhyw ffordd (naill ai llawer neu ychydig).

Ar gyfer 11% o'r holl fusnesau, mae'r llwybrau wedi helpu i sicrhau cyflogaeth i'w staff ac mae cyfran debyg (9%) wedi cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd oherwydd y llwybrau.

Wrth ystyried llwybrau unigol, mae cynnydd mewn cwsmeriaid a gwerthiannau/trosiant yn cael eu nodi fel y manteision mwyaf tebygol ar draws pob llwybr. Er enghraifft, mae 62% o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn teimlo ei fod wedi bod o fudd i nifer y cwsmeriaid i'w busnes.

Mae enghreifftiau o astudiaethau achos i helpu i ddangos sut mae'r llwybrau wedi bod o fudd i fusnesau yn Atodiad 3 hefyd.

Ffigur 16: Manteision llwybrau a neilltuwyd i fusnesau



Sylfaen: Pob busnes (82-1012) Q24a. Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> wedi arwain at neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes neu sefydliad?


## Pwysigrwydd y llwybrau i fusnesau yn y dyfodol

Yna gofynnwyd i fusnesau a oeddent yn teimlo y byddai unrhyw newid ym mhowsigrwydd eu llwybr penodedig yn y dyfodol. Ar lefel gyfan, mae 21% yn cytuno y bydd eu llwybr neilltuedig yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant yn y dyfodol, tra bod 75% o fusnesau'n nodi na fydd yn newid. Dim ond 1% sy'n meddwl y bydd yn dod yn llai pwysig ac mae'r 3% sy'n weddill yn ansicr.

Wrth ystyried llwybrau unigol, mae 23% o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru yn teimlo y bydd yn dod yn bwysicach i lwyddiant eu busnes yn y dyfodol. Mae'r gyfran hon yn debyg wrth ystyried Llwybr Arfordir Sir Benfro ar wahân (24%).

Mae 20% o fusnesau a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr yn meddwl y bydd yn bwysicach yn y dyfodol. Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Clawdd Offa sydd fwyaf tebygol o gredu y bydd yn aros yr un fath (81%).

Ffigur 17: Newidiadau a ragwelir ym mhowsigrwydd llwybrau i fusnesau



Sylfaen: Pob busnes (1013) Q25a. A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhowsigrwydd <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> i lwyddiant eich busnes/sefydliad? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

## Ansawdd y llwybr a neilltuwyd

### Barn gyffredinol ar wahanol agweddau ar lwybrau a neilltuwyd

Gofynnwyd i bob busnes roi adborth ar chwe agwedd yn ymwneud â'u llwybr penodedig. Roedd hyn yn cynnwys hygyrchedd, arwyddion, cynnal a chadw dodrefn y llwybr, cynnal a chadw offer/gwasanaethau a darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus.


**Wrth adolygu'r canlyniadau yn yr adran hon, dylid nodi mai ychydig iawn (os o gwbl) o fusnesau fydd â gwybodaeth ddigonol i wneud sylwadau ar eu holl lwybr penodedig ac felly mae'r canlyniadau'n debygol o fod yn berthnasol i ran leol y llwybr yn unig.**

Yn gyffredinol, o'r holl agweddau a gafodd eu graddio, mae cynnal a chadw dodrefn llwybr yn cael ei raddio'n fwyaf cadarnhaol gyda chyfartaledd o 63% yn graddio'r agwedd hon fel 'da' neu 'dda iawn' (ac eithrio'r opsiwn 'Ddim yn Gwybod'). Arwyddion (49%) ac ansawdd y wybodaeth (44%) yw'r rhai mwyaf cadarnhaol nesaf. Ar ben arall y raddfa, mae'n ymddangos bod angen gwella hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a bygi, gyda dim ond 18% yn graddio'r agwedd hon fel 'da' neu 'dda iawn' (ac eithrio'r opsiwn 'Ddim yn gwybod').

Fodd bynnag, dylid nodi bod o leiaf 30% o fusnesau wedi dewis yr opsiwn 'Ddim yn gwybod' wrth wneud sylwadau ar yr agweddau hyn (ac eithrio arwyddion). Mae hyn yn dangos diffyg ymwybyddiaeth posibl o'r agweddau hyn ymhlith y busnesau a arolygwyd.



Ffigur 18: Barn gyffredinol ar wahanol agweddau ar ansawdd y llwybr



*Sylfaen: Pob busnes (1013) Q20. Sut ydych chi'n graddio'r agweddau canlynol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.*


Mae Ffigurau 19-24 isod yn rhoi dadansoddiad manylach o'r chwe agwedd wedi'u dadansoddi fesul llwybr unigol.

## Arwyddion

Yn gyffredinol, mae 49% o fusnesau yn ystyried bod arwyddion eu llwybr penodedig yn 'dda' neu'n 'dda iawn' (ac eithrio'r opsiwn 'Ddim yn gwybod').

Mae cyfran debyg o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru yn ystyried bod yr arwyddion yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Mae hyn yn cynyddu i 54% wrth ystyried Llwybr Arfordir Sir Benfro yn unig. Yn ogystal, mae 47% o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Clawdd Offa yn ystyried yr agwedd hon yn gadarnhaol. Er, mae graddfeydd cadarnhaol yn is ar gyfer Ffordd Glyndŵr (41%).

Ffigur 19: Barn ar arwyddion yn ôl llwybr penodedig




Sylfaen: Pob busnes (1013) (82-1013) Q20. Sut ydych chi'n graddio'r agweddau canlynol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

## **Ansawdd gwybodaeth**

Ar gyfartaledd, mae 44% o fusnesau o'r farn bod ansawdd y wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr llwybrau yn 'dda' neu'n 'dda iawn' (ac eithrio'r rhai sy'n dweud 'Ddim yn gwybod').

Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (50%) sydd fwyaf tebygol o raddio ansawdd y wybodaeth yn gadarnhaol. Mewn cyferbyniad, busnesau a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr sydd leiaf tebygol o raddio'r agwedd hon fel 'da' neu 'dda iawn'. (27%).

Ffigur 20: Barn ar ansawdd yr wybodaeth a ddarperir yn ôl llwybr penodedig




*Sylfaen: Pob busnes (1013) (82-1013) Q20. Sut ydych chi'n graddio'r agweddau canlynol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.*

## Cynnal a chadw dodrefn y llwybr

Mae busnesau ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch cynnal a chadw dodrefn y llwybr.

Mae 66% o'r busnesau a neilltuwyd i Llwybr Arfordir Cymru yn ystyried yr agwedd hon yn 'dda' neu'n 'dda iawn' (ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn gwybod'). Mae hyn yn cynyddu i 75% o fusnesau wrth ystyried Llwybr Arfordir Sir Benfro ar wahân. Fodd bynnag, mae graddfeydd cadarnhaol yn is ymhlith y rhai a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr (42%).

Ffigur 21: Barn ar gynnal a chadw dodrefn llwybr yn ôl llwybr penodedig



Sylfaen: Pob busnes (1013) (82-1013) Q20. Sut ydych chi'n graddio'r agweddau canlynol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

## Cynnal a chadw cyfleusterau/gwasanaethau'r llwybr


Yn gyffredinol, mae busnesau yn fwy tebygol o fod yn negyddol na chadarnhaol ynghylch cynnal a chadw cyfleusterau a gwasanaethau llwybrau (e.e. toiledau, cyfleusterau arlwygo ac ati).

Wrth eithrio'r opsiwn 'Ddim yn gwybod', dim ond 28% o'r holl fusnesau sy'n graddio cynnal a chadw cyfleusterau/gwasanaethau fel 'da' neu 'da iawn'.

Mae'r canlyniadau fesul llwybr a neilltuwyd yn dangos darlun tebyg, gyda graddfeydd cadarnhaol yn isel yn gyffredinol. Llwybr Arfordir Sir Benfro sy'n sgorio uchaf, gyda 34% o fusnesau yn graddio'r agwedd hon yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Mae'r graddfeydd isaf ar gyfer Ffordd Glyndŵr gyda dim ond 8% yn graddio cynnal a chadw cyfleusterau a gwasanaethau'r llwybr yn gadarnhaol. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cyffredinol.

Ffigur 22: Barn ar gynnal a chadw cyfleusterau/gwasanaethau yn ôl llwybr penodedig




Sylfaen: Pob busnes (1013) (82-1013) Q20. Sut ydych chi'n graddio'r agweddau canlynol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

## Hygyrchedd i ddefnyddwyr cadair olwyn/y rheini â symudedd cyfyngedig/bygis

Mae Ffigur 23 yn amlygu bod hygyrchedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, y rhai â symudedd cyfyngedig a bygis yn elfen bosibl arall i'w wella.

Wrth eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn gwybod', dim ond cyfran fach o fusnesau (18%) sy'n graddio hygyrchedd y llwybrau ar gyfer y grwpiau hyn fel 'da' neu 'da iawn'. Wrth ystyried llwybrau unigol, dim ond 21% o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru sy'n graddio'r agwedd hon yn gadarnhaol. Mae hyn yn gostwng i 7% ar gyfer Ffordd Glyndŵr a 9% ar gyfer Llwybr Clawdd Offa.

Ffigur 23: Barn ar hygyrchedd yn ôl llwybr penodol




Sylfaen: Pob busnes (1013) (82-1013) Q20. Sut ydych chi'n graddio'r agweddau canlynol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

## Barn ar ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn ôl llwybr penodedig

Ar ôl eithrio atebion 'Ddim yn gwybod', mae 26% o'r holl fusnesau o'r farn bod y ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn 'dda neu'n 'dda iawn'. Mae hyn yn cynyddu i draean wrth ystyried busnesau sydd wedi'u neilltuo i naill ai Llwybr Arfordir Cymru neu'n benodol Llwybr Arfordir Sir Benfro (y ddau yn 32%).

Er gwaethaf y graddau cadarnhaol cymharol isel ar gyfer yr agwedd hon, mae'n bwysig nodi bod cyfran eithaf sylweddol wedi dewis yr opsiwn 'Ddim yn Gwybod'. Mae hyn yn amlygu angen posibl i Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu ei rhanddeiliaid allweddol godi ymwybyddiaeth o'r opsiynau trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael i gwsmeriaid.

Ffigur 24: Barn ar ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn ôl llwybr penodedig



Sylfaen: Pob busnes (1013) (82-1013) Q20. Sut ydych chi'n graddio'r agweddau canlynol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.



# Hyrwyddo'r llwybrau


## Ymwybyddiaeth brand

Yn galonogol, mae 68% o fusnesau yn ymwybodol o frandio eu llwybr penodedig neu sut y caiff ei hyrwyddo.

Wrth ystyried llwybrau unigol, mae 71% o'r busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru yn ymwybodol o'i frandio. Mae hyn yn cynyddu i 82% wrth ystyried Lwybr Arfordir Sir Benfro yn unig.

Mewn cyferbyniad, mae lefelau ymwybyddiaeth yn is ymhlith busnesau a neilltuwyd i naill ai Ffordd Glyndŵr (62%) neu Lwybr Clawdd Offa (61%).

Ffigur 25: Ymwybyddiaeth o frandio llwybr




Sylfaen: Pob busnes (1013) (82-1013) Q20. I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o'r brandio ar gyfer <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

Yn gysylltiedig â hyn, gofynnwyd i fusnesau a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu, neu wybodaeth am eu llwybr penodedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Ffigur 26 yn dangos bod 33% o'r holl fusnesau ar gyfartaledd wedi gweld rhywbeth o'r fath.

Wrth edrych ar y canlyniadau fesul llwybr a neilltuwyd, mae lefelau ymwybyddiaeth yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro (53% o gymharu â chyfartaledd o 33%). Er, maent yn is na'r cyfartaledd ymhlith y rhai a neilltuwyd naill ai i Ffordd Glyndŵr (12%) neu i Lwybr Clawdd Offa (26%).

Ffigur 26: A yw busnesau wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am eu llwybr penodedig dros y flwyddyn ddiwethaf?



Sylfaen: Pob busnes (82-1013) Q12. Dros y flwyddyn ddiwethaf, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04>? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.


## Wedi derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol am y llwybr penodedig

Gofynnwyd nesaf i fusnesau a allent gofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am eu llwybr penodedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Fel y dengys Ffigur 27, dim ond cyfran fach o'r holl fusnesau (9%) sy'n cofio gweld y wybodaeth hon.

Mae rhai amrywiadau rhwng llwybrau unigol, gyda 18% o fusnesau a neilltuwyd i Llwybr Arfordir Sir Benfro yn honni eu bod wedi derbyn yr wybodaeth hon. Mae hyn yn cymharu â dim un o'r busnesau a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr.

Gan fod y meintiau sylfaen yn fach, ni fu'n bosibl cynnal unrhyw ddadansoddiad manwl yn ôl sianel gyfathrebu. Er, mae'r canlyniadau'n dangos bod busnesau'n fwy tebygol o gofio gweld cyfathrebu uniongyrchol trwy e-bost.

Ffigur 27: A yw busnesau'n cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol dros y flwyddyn ddiwethaf



**Sylfaen:** Pob busnes (82-1013) Q15. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04>? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.


## Hyrwyddo llwybrau mewn deunyddiau marchnata

Roedd y pwnc nesaf yn yr arolwg yn canolbwyntio ar hyrwyddo llwybrau mewn deunyddiau marchnata. Gofynnwyd i bob busnes a oeddent yn crybwyll neu'n hyrwyddo eu llwybr penodedig yn unrhyw un o'u deunyddiau marchnata (megis eu gwefan, sianeli cyfryngau cymdeithasol neu wrth siarad â chwsmeriaid). Dylid nodi mai cwestiwn amlddewis oedd hwn gan y gallai rhai busnesau hyrwyddo'r llwybr ar lafar yn ogystal ag mewn deunyddiau marchnata ar bapur.

Ar gyfartaledd, mae 48% o'r holl fusnesau'n hyrwyddo eu llwybr penodedig mewn rhyw ffordd, gyda 19% ar gyfartaledd yn sôn amdano'n benodol yn eu deunyddiau marchnata. Ar y llaw arall, mae busnesau yn y sector manwerthu, yn ogystal â gweithgynhyrchu, adeiladu ac ati, yn sylweddol fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddatgan nad ydynt yn hyrwyddo eu llwybr penodedig mewn unrhyw ffordd (manwerthu – 59%; gweithgynhyrchwyr ac ati - 84%; pob sector - 51%).

Wrth ystyried llwybrau unigol, mae 73% o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn ei hyrwyddo mewn rhyw ffordd. Mae'r busnesau hyn hefyd yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o sôn yn benodol am eu llwybr neilltuedig yn eu marchnata (39% o gymharu â'r cyfartaledd o 19%) ac ar lafar (56% o gymharu â chyfartaledd o 36%).

Ffigur 28: A yw busnesau'n crybwyll enw eu llwybr penodedig yn unrhyw un o'u deunyddiau marchnata eu hunain




Sylfaen: Pob busnes (82-1012) Q17. Ydych chi'n crybwyll neu'n hyrwyddo <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> yn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun. Ddim yn gwybod 1%.

## Amlygrwydd llwybrau mewn deunyddiau marchnata

Pan ofynnwyd iddynt am amlygrwydd llwybrau yn eu deunyddiau marchnata, mae Ffigur 29 yn dangos bod 24% o fusnesau (ar gyfartaledd) yn ystyried eu llwybr penodedig yn elfen bwysig. Mae cyfran y busnesau sy'n cyfeirio at 'rai manylion' yn uwch, gyda 39% o'r holl fusnesau yn dewis yr opsiwn hwn.

Mae busnesau a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr yn sylweddol fwy tebygol na'r cyfartaledd (67% o gymharu â 35%) i gynnwys sylw didaro yn unig yn eu deunyddiau marchnata. Er, dylid nodi bod maint y sampl ar gyfer Llwybr Glyndŵr yn seiliedig ar 15 ymateb yn unig.

Ffigur 29: Amlygrwydd llwybrau a neilltuwyd mewn deunyddiau marchnata



Sylfaen: Pob busnes (15-258) Q18. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor amlwg <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> yn eich marchnata? \*Sylfaen isel o ddim ond pymtheg o ymatebwyr.


## Barn ar hyrwyddo'r llwybrau

Gofynnwyd i bob busnes wedyn a oeddent yn credu bod eu llwybr penodedig yn cael ei hyrwyddo'n ormod, digon neu ddim digon.

Dengys Ffigur 30 fod 70% o fusnesau yn gyffredinol yn meddwl y dylid hyrwyddo eu llwybr penodedig yn fwy. Mae'r ffigurau hyn yn debyg ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru (72%) a Ffordd Glyndŵr (71%). Fodd bynnag, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o fusnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro (35%) yn ystyried bod eu llwybrau penodedig yn cael eu hyrwyddo 'digon'.

Er na chafodd y rhesymau y tu ôl i hyn eu harchwilio yn yr arolwg meintiol, archwiliwyd hyn yn ystod y cyfweiliadau ansoddol dilynol. Cynigiodd busnesau amrywiaeth o awgrymiadau/gwelliannau a oedd yn amrywio o gyflwyno ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol i ddarparu llenyddiaeth fwy manwl am ddim (yn hytrach na gorfod prynu arweinlyfrau er enghraifft).

Ffigur 30: Lefelau hyrwyddo yn ôl llwybr penodedig



Sylfaen: Pob busnes (82-1013) Q19. Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> yn cael ei hyrwyddo?

# Annog mwy o gwsmeriaid i llwybrau


## Barn gyffredinol ar ffyrdd o annog mwy o gwsmeriaid

Cyflwynwyd pedwar gwelliant posibl i'r llwybrau i fusnesau a gofynnwyd iddynt ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno os oedd eu hangen.

Fel y dengys Ffigur 31, mae 74% o fusnesau'n teimlo bod angen mwy o wybodaeth neu gwell wybodaeth ar sut i gyrraedd y llwybrau mewn car. Dilynir hyn yn agos gan gwell/mwy o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, megis amserlenni (72%) a gwell dapariaeth trafndiaeth gyhoeddus (70%). Amlygwyd gwelliannau i ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus hefyd fel elfen i'w gwella yn Ffigur 24 uchod.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, dim ond 41% o fusnesau sy'n meddwl bod angen gwell cysylltiadau ffyrdd.

Ffigur 31: Dulliau i helpu i annog mwy o bobl i ymweld â'r llwybrau



Sylfaen: Pob busnes (1013) Q21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04>? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.


Mae Ffigurau 32-35 isod yn rhoi dadansoddiad manylach o bob gwelliant posibl wedi'i ddadansoddi fesul llwybr unigol.

## Mwy o wybodaeth neu well gwybodaeth am sut i gyrraedd y llwybrau mewn car

Mae mwy o wybodaeth neu well gwybodaeth am sut i gyrraedd y llwybrau mewn car yn cael ei weld fel yr elfen sydd angen ei gwella mwyaf, gyda 74% o'r holl fusnesau'n cytuno bod angen hyn.

Wrth ystyried llwybrau unigol, mae lefelau cytundeb yn debyg ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru (77%), Llwybr Arfordir Sir Benfro (74%) a Ffordd Glyndŵr (73%). Mae cytundeb ychydig yn is, ond yn dal yn gymharol uchel, ar gyfer Llwybr Clawdd Offa (67%).

Ffigur 32: Lefelau cytundeb - Mwy o/gwell gwybodaeth am sut i gyrraedd y llwybrau mewn car



Sylfaen: Pob busnes (82-1013) Q21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04>? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.




## Mwy o/gwell gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (e.e. amserlenni)

Mae 72% o'r holl fusnesau'n cytuno bod angen mwy o/gwell gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (e.e. amserlenni). Mae hyn yn cynyddu i 76% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a 78% ar gyfer Llwybr Arfordir Sir Benfro yn unig.

Mae llai o fusnesau sydd wedi'u neilltuo i Ffordd Glyndŵr (62%) neu Llwybr Clawdd Offa (66%) yn meddwl bod angen mwy o wybodaeth neu well gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (e.e amserlenni).

Ffigur 33: Lefelau cytundeb - Mwy o/gwell gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (e.e. amserlenni)




Sylfaen: Pob busnes (82-1013) Q21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04>? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

## Gwell darpariaeth trafndiaeth

Yn gyffredinol, mae 70% o fusnesau'n cytuno bod angen gwell darpariaeth trafndiaeth i annog mwy o bobl i ymweld â'r llwybrau.

Wrth ystyried llwybrau unigol, mae tua thri chwarter y busnesau sydd wedi neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (74%) neu Lwybr Arfordir Sir Benfro (76%) yn cytuno â'r gwelliant hwn. Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Clawdd Offa sydd leiaf tebygol o gytuno bod angen gwell darpariaeth trafndiaeth (60%).

Ffigur 34: Lefelau cytundeb - Gwell darpariaeth trafndiaeth




Sylfaen: Pob busnes (82-1013) Q21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04>? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.

## Gwell cysylltiadau ffyrdd

Yn gyffredinol, mae gwella cysylltiadau ffyrdd yn cael ei ystyried fel yr elfen leiaf angenrheidiol i'w gwella, gyda dim ond 41% o fusnesau'n cytuno.

Yn ôl llwybr unigol, busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (45%) a Lwybr Arfordir Sir Benfro yn unig (44%) sydd fwyaf tebygol o gytuno. Mewn cymhariaeth, y rhai a neilltuwyd i Lwybr Clawdd Offa sydd leiaf tebygol o gytuno (30%) y bydd gwell cysylltiadau ffyrdd yn helpu i annog mwy o gwsmeriaid i ymweld.

Ffigur 35: Lefelau cytundeb - gwell cysylltiadau ffyrdd



Sylfaen: Pob busnes (82-1013) Q21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â <<RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.


## Awgrymiadau i helpu cwsmeriaid i deithio o amgylch y llwybrau

Yn gysylltiedig â'r pwnc trafndiaeth, gofynnwyd i bob busnes pa welliannau (os o gwbl) y credant sydd eu hangen i helpu cwsmeriaid i deithio o gwmpas neu i gael mynediad at y llwybrau.

Yn gyffredinol, cynigiodd 75% o fusnesau awgrymiadau gyda'r 25% arall naill ai'n nodi 'nid oes angen gwelliannau', 'Ddim yn gwybod', neu nid oedd ganddynt unrhyw beth pellach i'w ychwanegu/dim sylw. Sylwch: mae hyn yn cynnwys 2% na wnaeth ymateb i'r cwestiwn (ddim wedi'i ddangos ar y siart).

Wrth edrych ar yr awgrymiadau, mae'r thema fwyaf poblogaidd yn ymwneud ag angen mwy o/gwell cysylltiadau trafndiaeth (29%). Mae 18% yn meddwl bod angen mwy o wybodaeth gyffredinol am y llwybrau.

Ffigur 36: Awgrymiadau i helpu cwsmeriaid i deithio o amgylch y llwybrau (ymatebion wedi'u codio)



*Sylfaen: Pob busnes (1013) Q22. Pa welliannau (os o gwbl), ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu rhagor o gwsmeriaid i deithio o gwmpas neu gael mynediad at y llwybrau? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich adborth ar gysylltiadau/gwasanaethau trafndiaeth ac hefyd darpariaeth gwybodaeth. Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd. 2% heb ateb.*

## Rhoddir rhai sylwadau enghreifftiol gan fusnesau isod:

*“Mae angen mwy o gysylltiadau trafndiaeth a mwy o mwy o amllder trafndiaeth. Does dim bwrdd croeso Cymreig bellach yn yr ardal i gynnig gwybodaeth ac mae'r arwyddion yn wael ar gyfer llwybr Ynys Môn.”*

*“Mae'r seilwaith trafndiaeth yn broblem yma, gan fod pobol sy'n dod yma yn aml yn sôn am y trenau. Maen nhw'n ei chael hi'n anodd iawn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd yno, oni bai eu bod yn defnyddio tacsis.”*

Mae Ffigur 37 yn dangos bod y blaenoriaethau ar gyfer gwella'n parhau'n gyson ar y cyfan ar draws y llwybrau. Yn nodedig, mae 21% o fusnesau a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr hefyd yn awyddus i weld gwell gwybodaeth i dwristiaid.

Ffigur 37: Y tri phrif awgrym i helpu cwsmeriaid i deithio o amgylch y llwybr fesul llwybr (ymatebion wedi'u codio)

<b>Pob llwybr a arolygwyd</b>	Mwy o/gwell cysylltiadau trafndiaeth: <b>29%</b>	Mwy o wybodaeth gyffredinol: <b>18%</b>	Codi proffil Cymru/y llwybrau: <b>16%</b>
Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro)	Mwy o/gwell cysylltiadau trafndiaeth: <b>29%</b>	Mwy o wybodaeth gyffredinol: <b>18%</b>	Codi proffil Cymru/y llwybrau: <b>16%</b>
Llwybr Arfordir Sir Benfro	Mwy o/gwell cysylltiadau trafndiaeth: <b>36%</b>	Mwy o wybodaeth gyffredinol: <b>15%</b>	Mwy o/gwell parcio i geir: <b>11%</b>
Ffordd Glyndŵr	Mwy o/gwell cysylltiadau trafndiaeth: <b>27%</b>	Mwy o wybodaeth gyffredinol: <b>27%</b>	Gwybodaeth i dwristiaid: <b>21%</b>
Clawdd Offa	Mwy o/gwell cysylltiadau trafndiaeth: <b>30%</b>	Mwy o wybodaeth gyffredinol: <b>15%</b>	Codi proffil Cymru/y llwybrau: <b>14%</b>


*Sylfaen: Pob busnes (82-1013) Q22. Pa welliannau (os o gwbl), ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu rhagor o gwsmeriaid i deithio o gwmpas neu gael mynediad at y llwybrau? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich adborth ar gysylltiadau/gwasanaethau trafndiaeth ac hefyd darpariaeth gwybodaeth.*

## Gwybodaeth a ystyrir yn fwyaf defnyddiol i ddefnyddwyr llwybrau

Archwiliwyd y pwnc darpariaeth gwybodaeth ymhellach, a gofynnwyd i fusnesau pa wybodaeth y credant fyddai fwyaf defnyddiol i'w cwsmeriaid.

Fel y dengys Ffigur 38, mae'r themâu a grybwyllir amlaf yn ymwneud â dolennau neu deithiau crwn (19%). Dilynir hyn yn agos gan deithiau cerdded (18%) a gwybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth (17%).

Ffigur 38: Gwybodaeth a ystyrir yn fwyaf defnyddiol i ddefnyddwyr llwybrau



*Sylfaen: Pob busnes (1012) Q30. Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Cymru/Llwybrau Cenedlaethol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.*


# Cymorth busnes

## Adborth ar y cymorth presennol sydd ar gael

Mae Ffigur 39 yn dangos bod 17% o fusnesau o'r farn bod mynediad at gymorth ariannol neu gymorth arall yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. (ac eithrio'r rhai sy'n dweud 'Ddim yn gwybod').

Fodd bynnag, dylid nodi bod cyfran uchel o fusnesau wedi dewis yr opsiwn 'Ddim yn gwybod' yn y ddau achos. Mae hyn yn amlygu diffyg ymwybyddiaeth posibl o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau.

Ffigur 39: Sgoriau ar y cymorth presennol sydd ar gael i fusnesau




*Sylfaen: Pob busnes (1013) Q31a. Sut fydddech chi'n graddio pob un o'r canlynol o ran y cymorth sydd ar gael i fusnesau/sefydliadau wedi'u lleoli yn agos at y llwybrau neu'r rhai a allai elwa o'u bodolaeth...? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.*

## Awgrymiadau ar gyfer helpu busnesau i gael mwy o fudd o'r llwybrau yn y dyfodol

Rhodddwyd cyfle i fusnesau a nododd fod mynediad at gymorth ariannol neu gymorth arall yn 'wael iawn', yn 'wael' neu'n 'weddol' i wneud sylwadau ar yr hyn y maent yn meddwl sydd angen digwydd i alluogi busnesau i elwa ar y llwybrau yn y dyfodol.

Fel y dengys Ffigur 40, mae'r thema a grybwyllir amlaf yn ymwneud â gwell maarchnata/hysbysebu (37%). Yn ogystal, hoffai 18% o fusnesau i ragor o wybodaeth fod ar gael am gyfleusterau ac ati. Mae 11% o fusnesau hefyd yn chwilio am gymorth ariannol.

Ffigur 40: Awgrymiadau ar gyfer helpu busnesau i gael mwy o fudd o'r llwybrau yn y dyfodol



Sylfaen: Pob busnes a ddywedodd fod mynediad at gymorth ariannol yn wael iawn, yn wael neu'n weddol (638) Q31b. Beth arall ydych chi'n meddwl sydd angen digwydd i helpu busnesau/sefydliadau i elwa mwy ar Lwybr Arfordir Cymru a/neu'r Llwybrau Cenedlaethol?



## Roedd sylwadau nodweddiadol gan fusnesau yn cynnwys:

*“Rwy’n meddwl y byddai’n fuddiol cael rhywun sy’n dod allan i roi cyngor ar farchnata, cymorth ariannol, a hyfforddiant, neu ar y ffôn os ydych angen rhywun i siarad â nhw i ddarganfod beth sydd ar gael.”*


*“Mwy o hyfforddiant, mwy o wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru, a chwrs llysgenhadon fel sydd gan y Parciau Cenedlaethol – pobl ar hyd y ffordd sy’n arbenigwyr ar y llwybr.”*

## Cydweithio â busnesau eraill

Gofynnwyd i bob busnes i ba raddau y maent yn cydweithio (neu’n gweithio mewn partneriaeth) â busnesau eraill ar hyd y llwybrau. Mae Ffigur 41 yn dangos bod 24% o’r holl fusnesau eisoes yn cydweithio â busnesau eraill i ryw raddau. Mae 10% yn teimlo eu bod yn cydweithio digon; gyda’r 14% sy’n weddill yn nodi y byddent yn hoffi’r cyfle i gydweithio mwy. Ar gyfartaledd nid yw 77% yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau eraill ar hyn o bryd, er, yn galonogol, byddai gan 26% ddiddordeb mewn gwneud hynny yn y dyfodol.

Mae busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn sylweddol fwy tebygol na’r rhai a neilltuwyd i bob llwybr arall o gydweithio. Mae 33% o’r rhai a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau eraill. Mae hyn yn cymharu ag 20% o fusnesau a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr neu Lwybr Clawdd Offa.

Ffigur 41: Cydweithio â busnesau eraill



*Sylfaen: Pob busnes (1013) Q26a. I ba raddau ydych chi'n cydweithio (neu'n gweithio mewn partneriaeth) ag unrhyw fusnesau eraill ar hyd Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.*

## **Rhwystrau sy'n atal cydweithredu â busnesau eraill**

Gofynnwyd i bob busnes nad yw'n cydweithio ar hyn o bryd ond a hoffai wneud hynny yn y dyfodol roi sylwadau ar y rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.

Mae'r thema fwyaf cyffredin yn ymwneud â diffyg gwybodaeth neu ymwybyddiaeth o bwy i gydweithio â nhw neu sut i fynd ati i wneud hynny (12% o'r crybwylladau). Dilynwyd hyn gan ddiffyg amser ac adnoddau (6% o'r crybwylladau).

### **Rhoddir detholiad o sylwadau enghreifftiol isod:**

*"Does gen i ddim cysylltiad â busnesau eraill. Rwyf wedi bod yn berchen ar y busnes Gwely a Brechwast ers mis Gorffennaf. Rwyf mewn cam ifanc. Does gen i ddim adnodd i gysylltu ag eraill ar y llwybr."*

*"Dim ond gwybodaeth am yr hyn y gallant ei gynnig i ni, a gallwn ni ei gynnig iddynt. Nid ydym yn gwybod digon am yr hyn y mae pob un yn ei wneud na sut y gallwn ni helpu ein gilydd. Rydyn ni'n gweithgynhyrchu, byddai'n wahanol pe baem yn fwyty."*

*"Gan ein bod ni'n rhan o'r cyngor lleol fe allai hyn ein cyfyngu ni. Mae'n rhaid i ni fod yn deg i bob busnes ac ni allwn ni gael ein gweld yn ffafrio'r rhai ar lwybr yr arfordir."*

*"Amser a mynediad, dyna'r unig beth. Mae'n rhaid i mi ddod o hyd iddyn nhw ac yna cysylltu â nhw a cheisio gwerthu iddyn nhw."*

*"Mae bob amser yn ymwneud ag adnoddau. Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn gwneud toriadau a rydym dan bwysau. Nid oes unrhyw adnoddau ychwanegol ar gyfer unrhyw fath o drawshyrwyddo."*

*"Cael y wybodaeth eu bod yn bodoli. Byddai'n dda gwybod am fusnesau Gwely a Brechwast eraill ar y llwybr."*

*Sylfaen: Pob busnes nad yw'n cydweithio â busnesau eraill ar hyn o bryd ond a hoffai wneud hynny yn y dyfodol (259). C26b. A oes unrhyw heriau neu rwystrau penodol wedi atal eich busnes/sefydliad rhag cydweithio â busnesau eraill ar hyd Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?*


## **Dewisiadau cyfathrebu**

Gofynnwyd i bob busnes sut oedd yn well ganddynt dderbyn cyfathrebiadau neu gymorth gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu randdeiliaid eraill.

Fel y dengys Ffigur 42, byddai'n well gan 72% o'r holl fusnesau dderbyn cyfathrebiadau neu gymorth trwy e-bost. Dewisodd 51% ddeunyddiau printiedig, megis taflenni neu lyfrynnau.

Yn ogystal, mae gan dros chwarter y busnesau ddiddordeb mewn derbyn cyfathrebiadau neu gymorth drwy ddigwyddiadau ar-lein/gweminarau (29%) neu ddigwyddiadau/cyfarfodydd wyneb yn wyneb (26%). Dim ond 9% o fusnesau sydd heb ddiddordeb mewn derbyn unrhyw gyfathrebiadau o gwbl.

Ffigur 42: Dewisiadau cyfathrebu



*Sylfaen: Pob busnes (1013). Q32. Sut y byddai'n well gennych dderbyn cyfathrebiadau neu gymorth gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu randdeiliaid eraill ynghylch Llwybr Arfordir Cymru a/neu'r Llwybrau Cenedlaethol?*

Wrth edrych ar wahaniaethau fesul sector busnes a llwybr neilltuedig, mae'r canlyniadau'n dangos y canlynol:

- Mae busnesau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, twristiaeth a hamdden yn llawer mwy tebygol o ddweud y byddai'n well ganddynt dderbyn cyfathrebiadau trwy gyfryngau cymdeithasol (46%), digwyddiadau ar-lein (41%), a digwyddiadau wyneb yn wyneb (38%).
- Mae busnesau a neilltuwyd i Ffordd Glyndŵr yn llawer mwy tebygol o beidio â bod â diddordeb mewn derbyn unrhyw gyfathrebiadau o gwbl (15%). Mae hyn yn cymharu â dim ond 7% o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru.
- Mae'r rhai sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru yn llawer mwy tebygol o ffafrio cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol (38%), na'r rhai a neilltuwyd i Lwybr Clawdd Offa a Ffordd Glyndŵr (y ddau yn 27%).

## Pecynnau cymorth busnes a phorth busnes


Mae adran olaf yr adroddiad yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a defnydd o becynnau cymorth Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol. Mae hefyd yn archwilio safbwyntiau ar gael porth busnes pwrpasol, a fyddai'n gweithredu fel un pwynt mynediad at wybodaeth i fusnesau.

### Ymwybyddiaeth a defnydd o becynnau cymorth busnes Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol

Mae Ffigur 43 yn dangos bod dim ond 5% o fusnesau sy'n ymwybodol bod pecynnau cymorth Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol wedi'u cyhoeddi y llynedd.

O'r 55 o fusnesau sy'n ymwybodol, mae 18% o fusnesau wedi defnyddio pecynnau cymorth busnes Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn.

Ffigur 43: Ymwybyddiaeth a defnydd o Becynnau Cymorth Busnes



*Sylfaen: Pob busnes (1013). Q23a. A ydych yn ymwybodol bod Pecynnau Cymorth Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol wedi'u cyhoeddi y llynedd a'u bod yn cynnwys cyfres o adnoddau defnyddiol i fusnesau? Pob busnes sy'n ymwybodol o Becynnau Cymorth Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol (55). C2ba. Ydych chi wedi defnyddio Pecyn Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf?*

### Diddordeb mewn porth busnes Llwybr Arfordir Cymru/Llwybrau Cenedlaethol


Cyn ateb y cwestiwn hwn, rhoddwyd y wybodaeth gyd-destunol ganlynol i bob busnes am borth busnes pwrpasol Llwybr Arfordir Cymru/Llwybrau Cenedlaethol:

**“Mae’n bosibl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (a rhanddeiliaid eraill) yn ystyried datblygu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a’r Llwybrau Cenedlaethol. Bydd hwn yn blatfform ar y rhyngwrwd a fydd yn bwynt mynediad at wybodaeth i fusnesau sydd wedi’u lleoli ar hyd Llwybr Arfordir Cymru a’r Llwybrau Cenedlaethol cyfan ac ar rannau ohonynt.”**

Yn galonogol, mae gan 55% o fusnesau ddiddordeb mewn defnyddio’r porth busnes. Mae’r diddordeb ar ei uchaf ymhlith y rhai yn y sectorau llety (67%) neu letygarwch (62%) ac isaf ymhlith busnesau manwerthu (50%).

Wrth ystyried lwybrau unigol (Ffigur 44), mae busnesau a neilltuwyd i Llwybr Arfordir Sir Benfro yn llawer mwy tebygol o fod â diddordeb mewn defnyddio’r porth busnes (63%) na’r rhai a neilltuwyd i Llwybr Clawdd Offa (47%) neu Ffordd Glyndŵr (49%).

Ffigur 44: Lefelau diddordeb mewn defnyddio’r porth busnes




*Sylfaen: Pob busnes (82-1013). Q27. Faint o ddiddordeb fyddai gan eich busnes/sefydliad mewn defnyddio’r porth busnes hwn? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.*

Gofynnwyd i bob busnes a fynegodd ddiddordeb yn y porth busnes pa fath o wybodaeth y credant fyddai’n eu helpu i redeg eu busnes.

Fel y dengys Ffigur 45, hoffai 93% o fusnesau naill ai weld gwybodaeth am y llwybrau y gellid eu rhannu â'u cwsmeriaid neu eu cynnwys yn eu marchnata eu hunain. (93%). Dilynir hyn yn agos gan newyddion a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r llwybrau (92%).

Yn galonogol, hoffai 74% o fusnesau i'r porth gynnwys gwybodaeth am gyfleoedd i rwydweithio â busnesau perthnasol eraill.

Ffigur 45: Gwybodaeth wedi'i chynnwys ar y porth busnes i helpu i gefnogi rhedeg busnesau neu i gefnogi eu llwyddiant



*Sylfaen: Pob busnes sydd â diddordeb yn y porth busnes (555). Q28. Pa fath o wybodaeth hoffech chi ei gweld ar y porth busnes, a fyddai'n helpu i gefnogi rhedeg neu lwyddiant eich busnes/sefydliad? Nid yw ffigurau o dan 5% yn cael eu dangos er taclusrwydd.*

# Atodiad 1: copi o'r holiadur

## Cyflwyniad i'r arolwg

Diolch yn fawr iawn am eich diddordeb yn ein Harolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu asiantaeth annibynnol ymchwil i'r farchnad, DJS Research Ltd i gynnal arolwg byr o fusnesau. Bydd yr arolwg yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall yn well pa gymorth sydd ai angen ar fusnesau/sefydliadau i fanteisio'n llawn ar eu lleoliad a'r cyfleoedd y mae Llwybr Arfordir Cymru a/neu'r Llwybrau Cenedlaethol yn eu darparu.

Mae DJS Research yn asiantaeth ymchwil marchnad annibynnol ac yn bartner Cymdeithas Ymchwil y Farchnad. O'r herwydd maent yn gweithredu yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, sy'n gwarantu cyfrinachedd ac ni fyddai unrhyw werthiannau o ganlyniad i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am bolisi preifatrwydd DJS Research yn:

<https://www.djsresearch.co.uk/about/terms>.

Fel arall, gallwch wirio eu tystlythyrau gyda'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad drwy ffonio 0800 975 9596.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, cysylltwch â Clare Rapkins, Uwch Reolwr Ymchwil yn DJS Research drwy y e-bost:

[rolwgBusnesLlwybrau@djsresearch.com](mailto:rolwgBusnesLlwybrau@djsresearch.com).

Os oes angen i chi wirio cyfreithlondeb yr ymchwil hwn, cliciwch yma i gael y llythyr awdurdodi wedi'i lofnodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dylai'r arolwg fod tua 15-20 munud.

**A02.****Sylfaen: Pob ymatebydd****A fyddai'n well gennych gwblhau'r arolwg yn y Gymraeg neu'r Saesneg?***DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr ateb
1	Cymraeg
2	Saesneg

**Cwestiynau sgrinio****S01.****Sylfaen: Pob ymatebydd**

Rhowch deitl eich swydd neu sefyllfa o fewn eich busnes neu sefydliad?

Diben y wybodaeth hon yw ein helpu i ddeall pa rolau o fewn cwmnïau yr ydym yn siarad â nhw orau, nid i briodoli ymatebion i unrhyw berson penodol.

*YSGRIFENNWCH*

Cod	Rhestr o atebion
86	Gwell gennyf beidio â dweud

**S02a.****Sylfaen: Pob ymatebydd**

Pa rai, os o gwbl, o'r llwybrau canlynol y mae eich busnes neu sefydliad wedi'u lleoli arnynt neu'n agos atynt?

Gall hyn gynnwys unrhyw un o adeiladau eich busnes/sefydliad os oes gennych fwy nac un, ac wrth 'agos at' rydym yn golygu o fewn pellter cerdded neu daith fer mewn car.

*DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL*

Cod	Rhestr o atebion
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro
2	Llwybr Arfordir Cymru - gan gynnwys unrhyw adran rydych chi arni, megis Llwybr Arfordir Ynys Môn neu Geredigion, ond nid Llwybr Arfordir Sir Benfro
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol



4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol
5	Dim un o'r rhain

### S02b.

#### Lleoliad: Lle sydd wedi'i leoli'n agos at o leiaf un llwybr (S02a/1-4)

Tua pa mor bell mae eich safle neu adeilad agosaf i bob un o'r canlynol?

#### DEWISWCH UN AR GYFER POB UN

Cod	Rhestr o atebion
1	Ar y llwybr
2	O fewn 1-2km/tua 1 milltir
3	O fewn 5km /tua 2-3 milltir
4	O fewn 10km/tua 4-6 milltir
5	O fewn 15km/tua 10 milltir
6	Mwy na 15km/10 milltir
85	Ddim yn gwybod

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro
2	Llwybr Arfordir Cymru (ac eithrio Llwybr Arfordir Sir Benfro)
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol
4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol
5	Dim un o'r rhain

### S03.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd

A yw eich busnes neu sefydliad yn cynhyrchu, gwerthu neu gyflenwi unrhyw gynnyrch neu wasanaethau i bobl sy'n defnyddio neu'n ymweld ag unrhyw un o'r llwybrau cerdded, neu'n cael unrhyw fudd o fodolaeth y naill lwybr neu'r llall?

#### DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

Cod	Rhestr o atebion
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro
2	Llwybr Arfordir Cymru (ac eithrio Llwybr Arfordir Sir Benfro)
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol

4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol
5	Dim un o'r rhain

LLE NAD YW WEDI'I LEOLI'N AGOS AT AC NAD YW'N ELWA MEWN UNRHYW Ffordd o'r Naill Llwybr Neu'r Llall (S02A/5 A S03/5): DIOLCH A CHAU MAE

PAWB ARALL YN PARHAU

## Pwysigrwydd pob llwybr / llwybr i'r busnes/sefydliad.

### Q01.

**Sylfaen: Lle mae busnes yn meddwl eu bod yn elwa o llwybr (S03/1-4)**

Sut mae eich busnes/sefydliad yn elwa o'r <MEWNOSOD ENW'R LLWYBR>?

*YSGRIFENNWCH*

Cod	Rhestr o atebion
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro
2	Llwybr Arfordir Cymru (ac eithrio Llwybr Arfordir Sir Benfro)
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol
4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol

### Q02.

**Sylfaen: Pob ymatebydd - ar gyfer pob llwybr y maent yn agos ato neu'n elwa ohono (h.y. dewis yn S02A NEU S03)**

Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd pob un o'r llwybrau canlynol i lwyddiant eich busnes/sefydliad?

*DEWISWCH UN AR GYFER POB UN*

Cod	Rhestr o atebion
4	Pwysig iawn
3	Gweddol bwysig
2	Ddim yn bwysig iawn
1	Nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl i fy busnes/sefydliad
85	Ddim yn gwybod

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro

2	Llwybr Arfordir Cymru (ac eithrio Llwybr Arfordir Sir Benfro)
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol
4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol

**Q03.**

**Sylfaen: Mae gan bob ymatebydd sy'n nodi bod gan bob llwybr rywfaint o bwysigrwydd i'w busnes/sefydliad (Q02/2-4)**

Gan feddwl am eich busnes neu sefydliad yn ei gyfanrwydd, yn fras, pa ganran o'ch gwerthiannau neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr pob un o'r llwybrau canlynol neu a ellir eu priodoli i'w bodolaeth mewn rhyw fodd?

*DEWISWCH UN AR GYFER POB UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	0%
2	1-10%
3	11-25%
4	26-50%
5	51-75%
6	76-99%
7	100%
86	Ddim yn gwybod

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro
2	Llwybr Arfordir Cymru (ac eithrio Llwybr Arfordir Sir Benfro)
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol
4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol

Q04: LLWYBR A NEILLTUWYD:

**Sylfaen: Pob ymatebydd**

YN SEILIEDIG AR LWYBR(AU) A DDEWISWYD YN S02a / NEU S03.

LLE DEWISODD MWY NAG UN: DEWISWCH YR UN SY'N CYNHYRCHU'R % UCHAF O INCWM YN Q03. OS YW'R %'S YN GYFARTAL, GOFYNNWCH:

Pa un o'r llwybrau ydych chi'n meddwl mae eich busnes/sefydliad yn dibynnu fwyaf arno, er enghraifft pe byddai'n cau, pa un fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar eich busnes/sefydliad?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro
2	Llwybr Arfordir Cymru (ac eithrio Llwybr Arfordir Sir Benfro)
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol
4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol

## Proffil Busnes

**Q05a.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd**

Disgrifiwch os gwelwch yn dda beth yw prif weithgaredd neu natur eich busnes/sefydliad?

Pa wasanaeth(au) y mae eich busnes yn ei ddarparu/eu darparu? Beth mae eich busnes yn ei wneud?

*YSGRIFENNWCH.*

**Q05b.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd**

Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes/sefydliad orau?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	Llety (gan gynnwys gwestai, tai llety, Gwely a Brecwast, hosteli ieuencid, carafán a safleoedd gwerysyla a llety hunanarlwyo)
2	Lletygarwch (tai bwyta, tafarnau, caffis ac ati)
3	Manwerthu (gan gynnwys siopau crefft/anrhegion, dillad, bwyd/petrol ac ati)
4	Atyniad/lle i ymwelwyr ymweld ag ef/cyfleuster hamdden (e.e. orielau, cyfleuster chwaraeon)
5	Cludiant (e.e. Tacsis, coetsys)

6	Gwasanaethau neu weithgareddau perthynol i dwristiaeth/hamdden (e.e. tywyswyr taith/cerdded, asiant archebu, llogi beiciau)
7	Gwneuthurwr, cynhyrchydd neu gyflenwr cynhyrchion cysylltiedig â'r llwybrau (e.e.; argraffydd, deunyddiau adeiladu, gweithgynhyrchydd cofroddion cysylltiedig)
8	Adeiladu/adeiladwaith/atgyweirio neu gynnal a chadw (e.e. ffensio, torri gwair, gosod arwynebau)
80	Arall

### Q06.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd

Ydi eich busnes/sefydliad yn gweithredu o un lleoliad neu adeilad, neu leoliadau neu adeiladau lluosog?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	Un lleoliad/adeilad wedi'i leoli yng Nghymru
2	Un lleoliad/adeilad wedi'i leoli y tu allan i Gymru (e.e. Lloegr)
3	Lluosog - seiliedig YN UNIG yng Nghymru - rhowch rifau (os yw'n hysbys)
4	Lluosog - wedi'u lleoli yn y DU (gan gynnwys Cymru) - rhowch rifau (os ydynt yn hysbys)

### Q07a.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd

Gan gynnwys chi eich hun, faint o **staff amser llawn a rhan amser** parhaol a gyflogir yn eich busnes/sefydliad yn y lleoliad hwn? **Eithriwch unrhyw weithwyr dros dro neu dymhorol.**

*DEWISWCH UN.*

*Os nad yw'r union nifer yn hysbys, rhowch amcangyfrif.*

Cod	Rhestr o atebion
0	Dim
1	1 (fi yn unig)
2	2-9
3	10-24

4	25-49
5	50-99
6	100-249
7	Mwy na 250
85	Ddim yn gwybod
86	Gwell gennyf beidio â dweud

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Llawr amser (gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos)
2	Rhan-amser (gweithio llai na 30 awr yr wythnos)

**Q07b.**

**Sylfaen: Lle aml-safle (Q06/3-4)**

Gan gynnwys chi eich hun, faint **staff amser llawn a rhan amser** parhaol a gyflogir yn eich busnes/sefydliad yn ei gyfanrwydd? **Eithriwch unrhyw weithwyr dros dro neu dymhorol.**

*DEWISWCH UN.*

*Os nad yw'r union nifer yn hysbys, rhowch amcangyfrif.*

Cod	Rhestr o atebion
0	Dim
1	1 (fi yn unig)
2	2-9
3	10-24
4	25-49
5	50-99
6	100-249
7	Mwy na 250
85	Ddim yn gwybod
86	Gwell gennyf beidio â dweud

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Llawr amser (gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos)
2	Rhan-amser (gweithio llai na 30 awr yr wythnos)

**Q08.****Sylfaen: Pob ymatebydd**

Ar draws blwyddyn, faint o **weithwyr tymhorol neu dros dro** a gyflogir gan eich busnes/sefydliad? LLE AML-SAFLE (C06/3-4) Cynhwyswch bob safle neu leoliad sy'n agos at Lwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol neu sy'n elwa ohono.

DEWISWCH UN.

*Os nad yw'r union nifer yn hysbys, rhowch amcangyfrif.*

Cod	Rhestr o atebion
1	Dim
2	1
3	2-4
4	5-9
5	10-24
6	25-49
7	50-99
8	100-249
9	Mwy na 250
85	Ddim yn gwybod
86	Gwell gennyf beidio â dweud

**Q09a****Sylfaen: Pob ymatebydd**

Ac a yw eich busnes/sefydliad ar agor drwy'r flwyddyn?

DEWISWCH UN

Cod	Rhestr o atebion
1	Ydi
2	Na – yn unig: nodwch fisoedd o'r flwyddyn y maen nhw ar agor e.e. Mai i Hydref

**Q09b.****Sylfaen: Pob ymatebydd**

A oes tymor neu amser penodol o'r flwyddyn y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	Gwanwyn
2	Haf
3	Hydref
4	Gaeaf
5	Mae'n amrywio
6	Drwy gydol y flwyddyn/ddim yn dymhorol
85	Ddim yn gwybod

## Ymwybyddiaeth o <<Llwybr a Neilltuwyd>> yn Ch04

GWYBODAETH 1: Meddwl nawr am <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>.

**Q010.****Sylfaen: Pob ymatebydd**

I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o'r brandio ar gyfer <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04> neu sut mae'n cael ei hyrwyddo?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
3	Yn ymwybodol iawn
2	Rhywfaint yn ymwybodol
1	Ddim yn ymwybodol o gwbl
85	Ddim yn gwybod

**Q011.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o'r brandio ar gyfer LLWYBR PENODEDIG neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? (Q010/2-3)**

Sut fydddech chi'n disgrifio brandio (h.y. logo) <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>?



Er enghraifft, allwch chi ddisgrifio'r logo, lliwiau ac ati a ddefnyddir.

Sylwch y gall deunyddiau fod â brand deuol mewn rhai achosion, gyda mwy nag un logo/sonio am fwy nag un llwybr neu drywydd.

#### YSGRIFENNWCH

Cod	Rhestr o atebion
1	Llwybr Arfordir Sir Benfro
2	Llwybr Arfordir Cymru (ac eithrio Llwybr Arfordir Sir Benfro)
3	Llwybr Clawdd Offa/Llwybr Cenedlaethol
4	Ffordd Glyndŵr/Llwybr Cenedlaethol

#### Q012.

##### Sylfaen: Pob ymatebydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>?

#### DEWISWCH UN

Cod	Rhestr o atebion
1	Ydw
2	Nac ydw
85	Ddim yn gwybod

#### Q013.

##### Sylfaen: Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (Q012/1)

A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych chi wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer y <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>?

#### DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

Cod	Rhestr o atebion
1	Teledu
2	Radio
3	Erthygl papur newydd
4	Erthygl cylchgrawn
5	Taflen/llyfryn/poster

6	Canllaw ymwelwyr i gyrchfan neu ardal
7	Llwybr Arfordir Cymru / Llwybr Clawdd Offa/ Ffordd Glyndŵr gwefan
8	Unrhyw wefannau eraill/ Rhyngrwyd
9	Arwyddion
10	Mewn digwyddiad
11	Instagram
12	Cyfathrebiadau/marchnata Croeso Cymru
13	Cyfathrebiadau/marchnata Awdurdod Lleol (nodwch enw'r Awdurdod Lleol)
14	TikTok
15	X (Twitter gynt)
16	Facebook
80	Arall (manylwch)
85	Ddim yn gwybod

**Q014.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (Q12/1)**

Beth yw eich barn am y cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth yr ydych wedi'i gweld neu glywed amdanynt <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04> yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran... ?

*DEWISWCH UN AR GYFER POB UN*

<b>Cod</b>	<b>Rhestr o atebion</b>
5	Da iawn
4	Da
3	Gweddol
2	Gwael
1	Gwael iawn
85	Ddim yn gwybod

<b>Cod</b>	<b>Rhestr o ddatganiadau</b>
1	Amllder
2	Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr/defnyddwyr i'r llwybr

3	Effeithiolrwydd o ran helpu neu effeithio ar lwyddiant eich busnes/sefydliad
---	--

**Q015.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>?

*DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL*

Cod	Rhestr o atebion
1	Cylchlythyr
2	E-bost(au)
3	Instagram
4	TikTok
5	X (Twitter gynt)
6	Facebook
80	Unrhyw gyfathrebu uniongyrchol arall (nodwch)
87	Dim un o'r rhain

**Q016.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol (Q15\_1-80)**

Beth yw eich barn am y cyfathrebiadau uniongyrchol a gawsoch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>?

*DEWISWCH UN AR GYFER POB UN*

Cod	Rhestr o atebion
5	Da iawn
4	Da
3	Gweddol
2	Gwael
1	Gwael iawn
85	Ddim yn gwybod

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Amllder

2	Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr/defnyddwyr i'r llwybr
3	Effeithiolrwydd o ran helpu neu effeithio ar lwyddiant eich busnes/sefydliad

**Q017.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd**

Ydych chi'n crybwyll neu'n hyrwyddo <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04> mewn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â'ch cwsmeriaid?

*DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL*

Cod	Rhestr o atebion
1	Ydym – mae ein <b>marchnata yn crybwyll yn benodol</b> <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>
2	Ydym – mae ein <b>marchnata</b> yn sôn am lwybr arfordirol ond nid yw yn cyfeirio'n benodol <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>
3	Ydym, ar <b>lafar</b> (hynny yw, siarad ag ymwelwyr/cwsmeriaid am <MEWNOSOD ENW LLWYBR PENODEDIG yn Q04>
4	Dim un o'r rhain
85	Ddim yn gwybod

**Q018.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n sôn am eu llwybr / llwybr penodedig yn eu deunyddiau marchnata (Q017/1 OR 2)**

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor amlwg yw < RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> yn eich marchnata?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	Prif thema
2	Elfen bwysig
3	Cyfeiriwyd at rai manylion
4	Cyfeirnod pasio

**Q019.****Sylfaen: Pob ymatebydd**

Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> yn cael ei hyrwyddo...?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	Gormod o lawer
2	Ychydig yn ormod
3	Tua'r swm cywir
4	Dim digon
85	Ddim yn gwybod

## Adborth ar agweddau ar <<Llwybr a Neilltuwyd>>

**Q020.****Sylfaen: Pob ymatebydd**

Gan feddwl am <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04> sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol?

*DEWISWCH UN AR GYFER POB UN*

Cod	Rhestr o atebion
5	Da iawn
4	Da
3	Gweddol
2	Gwael
1	Gwael iawn
85	Ddim yn gwybod

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Arwyddion (e.e. sut i fynd ar y llwybrau, llwybrau dychwelyd yn glir i'w dilyn ac ati)
2	Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr llwybrau
3	Cynnal a chadw dodrefn y llwybr (e.e. pontydd, grisiau, gatiâu, camfeydd ac ati)
4	Cynnal a chadw cyfleusterau/gwasanaethau a ddarperir ar hyd y llwybr (e.e. toiledau, cyfleusterau arlwygo)

5	Mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn/y rheini â symudedd cyfyngedig neu fygis
6	Darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio o amgylch y llwybr (e.e. bysiau)

### Q021.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â <RHOWCH ENW'R LLWYBR A NEILLTUWYD yn Q04>?

*DEWISWCH UN AR GYFER POB UN.*

Cod	Rhestr o atebion
5	Cytuno'n gryf
4	Cytuno
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
2	Anghytuno
1	Anghytuno'n gryf
85	Ddim yn gwybod

Cod	Rhestr o ddatganiadau
1	Gwell darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus
2	Rhagor o/gwell gwybodaeth am drafndiaeth gyhoeddus (e.e. amserlenni)
3	Gwell cysylltiadau ffyrdd
4	Rhagor o/gwell gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r llwybrau mewn car (e.e. ble i barcio)

### Q022.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd

Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu rhagor o gwsmeriaid/ymwelwyr i deithio o gwmpas neu gael mynediad i'r llwybrau?

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich adborth ar gysylltiadau/gwasanaethau trafndiaeth ond hefyd darpariaeth gwybodaeth.

*YSGRIFENNWCH*

Cod	Rhestr o atebion
86	Dim angen gwelliannau
85	Ddim yn gwybod

## Pecynnau Cymorth Busnes

### Q023a.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd

A ydych yn ymwybodol bod Pecynnau Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol wedi'u cyhoeddi y llynedd a'u bod yn cynnwys cyfres o adnoddau defnyddiol i fusnesau?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	Ydw
2	Nac ydw
85	Ddim yn gwybod

### Q023b.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o Becyn Cymorth Busnes Arfordir Cymru neu Llwybrau Cenedlaethol (Q023a/1)

Ydych chi wedi defnyddio Pecyn Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf?

*DEWISWCH UN*

Cod	Rhestr o atebion
1	Ydw
2	Nac ydw
85	Ddim yn gwybod

### Q023c.

#### Sylfaen: Pob ymatebydd sydd wedi defnyddio naill ai Llwybr Arfordir Cymru neu Becyn Cymorth Busnes Llwybrau Cenedlaethol (Q023b/1)

A wnaethoch chi unrhyw un o'r canlynol ar ôl ymgynghori â Phecyn Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

*DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL*

Cod	Rhestr o atebion
1	Wedi hyrwyddo eich agosrwydd at Llwybr Arfordir Cymru

2	Wedi hyrwyddo 10 mlynedd o Lwybr Arfordir Cymru yn 2022
3	Wedi darparu dolenni o'ch gwefan i deithlenni cerdded lleol yn annog cerddwyr i ymweld â'ch busnes
4	Wedi rhannu'r teithlenni ar eich ffrydiau cyfryngau cymdeithasol, gan amlygu sut y gall eich busnes wella'r profiad
5	Teithlenni cerdded lleol wedi'u hargraffu, gan eu rhannu â gwesteion/cwsmeriaid, eu hannog i gerdded y llwybr gan gynnig awgrymiadau lleol gwych
80	Rhywbeth arall (nodwch)
87	Dim un o'r uchod

**Q023d.**

**Sylfaen: Pawb yn ymwybodol o Lwybr Arfordir Cymru neu Becyn Cymorth Busnes Llwybrau Cenedlaethol, ond heb ei ddefnyddio (Q023b/2)**

A oes unrhyw reswm penodol pam nad ydych wedi defnyddio Pecyn Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

*YSGRIFENNWCH.*

Cod	Rhestr o atebion
87	Dim rheswm arbennig

**Q023e.**

**Sylfaen: Pob ymatebydd nad ydynt yn ymwybodol o Becyn Busnes Llwybr Arfordir Cymru neu ddim wedi ei ddefnyddio (Q023a/2, 85 OR Q023b/2, 85)**

Hoffech chi dderbyn dolen ar-lein i Becyn Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

*DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL*

Cod	Rhestr o atebion
1	Le – Pecyn Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru
